# Agenda - Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3, Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 14 Medi 2023

Amser: 09.30 - 13.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Lleu Williams,** Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDiwylliant@senedd.cymru

## Cofrestru cyn y cyfarfod

(09.15 - 09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Papurau i'w nodi

(09.30 - 09.35)

Mae modd gweld y papurau i'w nodi ar gyfer y cyfarfod drwy'r linc isod:

- Papurau i'w nodi: pecyn llawn

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitemau 4, 5, 7, 8, 9 a 10

(09.35)

## 4 Yr heriau sy'n wynebu gweithlu'r diwydiant creadigol: trafod yr adroddiad drafft

(09.35 - 10.00) (Tudalennau 1 - 51)

Dogfennau atodol:

- Nodyn briffio: Yr heriau sy'n wynebu gweithlu'r diwydiant creadigol

Senedd Cymru
Welsh Parliament

- Adroddiad ddrafft: Yr heriau sy'n wynebu gweithlu'r diwydiant creadigol (Saesneg yn unig)

## 5 Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon: trafod yr adroddiad drafft

(10.00 – 10.25) (Tudalennau 52 – 99)

Dogfennau atodol:

- Nodyn briffio: Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon
- Adroddiad ddrafft: Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon (Saesneg yn unig)

## Egwyl

(10.25 – 10.30)

## 6 Oriel gelf gyfoes genedlaethol: Sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog

(10.30 – 11.30) (Tudalennau 100 – 173)

- Dawn Bowden AS, Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth, Llywodraeth Cymru
- Jason Thomas, Cyfarwyddwr Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, Llywodraeth Cymru
- Ian Williams, Dirprwy Gyfarwyddwr Diwylliant a Chwaraeon, Llywodraeth Cymru
- Marcus Hill, Pennaeth Prosiectau Cyfalaf, Llywodraeth Cymru

Dogfennau atodol:

- Briff ymchwil a phapur ar y materion allweddol: Oriel gelf gyfoes genedlaethol
- Tystiolaeth gan Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth: Oriel gelf gyfoes genedlaethol
    - Atodiad 1: Ystyriaethau ar gyfer Safle Angor: Oriel gelf gyfoes genedlaethol
- Ymateb gan Cyngor Caerdydd: Oriel gelf gyfoes genedlaethol

- Ymateb gan Sefydliad Cyfarthfa a Chyngor Bwrdeistraf Sirol Merthyr Tudful: Oriel gelf gyfoes genedlaethol
- Ymateb gan Cyngor Dinas Casnewydd: Oriel gelf gyfoes genedlaethol (Saesneg yn unig)
- Ymateb gan Cyngor Abertawe: Oriel gelf gyfoes genedlaethol

## Egwyl

(11.30 – 11.35)

## 7 Oriel gelf gyfoes genedlaethol: trafod y dystiolaeth

(11.35 – 12.00)

## 8 Oriel gelf gyfoes genedlaethol: diweddariadau yn sgil gwaith ymgysylltu yr ymchwiliad

(12.00 – 12.15) (Tudalennau 174 – 188)

Dogfennau atodol:

- Canfyddiadau o waith ymgysylltu: Oriel gelf gyfoes genedlaethol

## 9 Oriel gelf gyfoes genedlaethol: trafod y materion allweddol

(12.15 – 12.35)

## 10 Blaenraglen Waith

### 10.1 Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru: trafod y papur cwmpasu

(12.35 – 12.45) (Tudalennau 189 – 191)

Dogfennau atodol:

- Papur cwmpasu: Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru

### 10.2 Trafod y flaenraglen waith ar gyfer tymor yr hydref 2023

(12.45 – 13.00) (Tudalennau 192 – 196)

Dogfennau atodol:

- Blaenraglen waith: hydref 2023

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 5

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Tystiolaeth y Gweinidog a gyflwynir i gefnogi ymchwiliad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol i gynlluniau ar gyfer Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol Cymru

## Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn darparu tystiolaeth er mwyn llywio ymchwiliad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol i gynlluniau ar gyfer Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol Cymru. Mae'n darparu tystiolaeth mewn perthynas â'r pedwar maes allweddol a nodir yn y cylch gorchwyl ar gyfer yr ymchwiliad gan y pwyllgor.

## 1 Cyflawni cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol Cymru.

Mae'r model ar gyfer Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol Cymru yn cynnwys yr elfennau canlynol:

a) Rhwydwaith o orielau ledled Cymru a fydd yn rhoi mynediad am ddim i'r casgliad cenedlaethol ac yn dod â chelf gyfoes yn nes at gymunedau.
b) Orielau lletya sy'n lletya'r casgliad cenedlaethol o gelf Cymru ar hyn o bryd.
c) Oriel angor a fydd yn darparu wyneb cyhoeddus amlwg i'r oriel celf gyfoes genedlaethol.
d) Datblygu platfform digidol o'r enw Celf ar y Cyd, a fydd yn rhoi mynediad i'r casgliad cenedlaethol wedi'i ddigideiddio a fydd ar gael i bawb.

Mae'r model hwn yn cael ei roi ar waith fesul cam, gan weithio gyda'r sefydliadau partner a Llywodraeth Cymru.

Er i adroddiad cychwynnol gael ei lunio a ystyriodd y cysyniad yn ystod 2008, cwblhawyd yr astudiaeth ddichonoldeb gyntaf ym mis Gorffennaf 2018.

Yn ystod pandemig COVID-19, cwtogwyd ar lawer o'r gwaith hwn a newidiodd y ffocws i gefnogi'r sectorau drwy'r cyfnod. Yna parhaodd gwaith a oedd yn canolbwyntio ar y model o 2020 ymlaen. Ceir amserlen gryno yn Atodiad 1.

### a) Rhwydwaith o Orielau

Arweinir yr elfen hon o'r model gan bartneriaeth rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru gyda chymorth Llywodraeth Cymru. Mae'r tri phartner wedi bod yn gweithio gyda gwahanol leoliadau sy'n cael eu hystyried fel rhan o rwydwaith gwasgaredig o orielau ledled Cymru.

Mae achos busnes amlinellol wedi'i gyflwyno ar gyfer y rhwydwaith o orielau. Yn ystod y misoedd nesaf, bydd gweithgarwch yn dechrau mewn hyd at naw oriel ledled Cymru er mwyn sicrhau bod yr orielau yn cyrraedd safonau penodol sydd eu hangen er mwyn bod yn rhan o'r rhwydwaith.

Yn seiliedig ar y gwaith ymchwiliol a wnaed ar ran partneriaid y prosiect gan y Swyddfa Pensaernïaeth Wledig, mae'n amlwg bod angen lefelau gwahanol o fuddsoddiad yn yr orielau a ddewisir i fod yn rhan o'r rhwydwaith yn seiliedig ar y meini prawf sydd eu hangen er mwyn cyrraedd safonau GIS.  Mae'r prosiect yn cael ei gyflawni fesul cam sy'n galluogi orielau i ymuno â'r rhwydwaith ar wahanol adegau pan fyddant yn barod i wneud hynny, nes i'r buddsoddiad ynddynt gael ei gwblhau ym mis Mawrth 2025.

Bydd pob un o'r orielau yn rhoi'r rhaglenni gwaith gofynnol ar waith yn ystod y misoedd i ddod gyda llawer o'r gwaith hwn yn destun ymarfer caffael cystadleuol.

Mae naw lleoliad ledled Cymru wedi'u rhoi ar y rhestr fer i fod yn aelodau o'r Rhwydwaith o orielau a bydd y rhain yn lleoliadau lle y gall pobl weld y casgliad cenedlaethol yn nes at eu cartrefi. Mae asesiad mwy manwl o'r lleoliadau yn cael ei gynnal ar hyn o bryd. Y lleoliadau hyn yw:

- Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth
- Oriel Gelf Glynn Vivian, Abertawe
- MOSTYN, Llandudno
- Amgueddfa ac Oriel Gelf Casnewydd
- Oriel Davies, y Drenewydd
- Oriel Myrddin, Caerfyrddin
- Plas Glyn-y-Weddw, Pwllheli
- Canolfan Grefft Rhuthun
- STORIEL, Bangor

Mae potensial i gynyddu mynediad yn ddaearyddol, naill ai drwy ehangu'r rhwydwaith hwn neu drwy rannu'r gweithiau wedi'u digideiddio i'w harddangos mewn lleoliadau ehangach ledled Cymru.

### b) Orielau Lletya

Orielau lletya yw'r rhai sy'n lletya'r casgliad cenedlaethol ar hyn o bryd, neu sy'n bwriadu ei letya, ac maent yn rhan o'r seilwaith presennol yng Nghymru. Maent yn cynnwys Amgueddfa Genedlaethol ac, o bosibl, Amgueddfa Lechi Cymru yn Llanberis a Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth.

Er bod y rhain yn bodoli ar hyn o bryd, byddant yn parhau i fod yn rhan bwysig o'r rhwydwaith a'r orielau hyn yw prif ffynhonnell y casgliad cenedlaethol presennol gan gynnwys celf gyfoes. Parheir i fuddsoddi yn y sefydliadau hyn drwy'r grantiau a ddyfernir i'r cyrff hyn a noddir er mwyn cefnogi eu darpariaeth.

### c) Oriel Angor

Dechreuwyd chwilio am safle addas ar gyfer oriel angor ym mis Gorffennaf 2022 gyda Llywodraeth Cymru yn gwahodd rheolwyr ystadau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru i gyflwyno datganiadau o ddiddordeb. Cafwyd cyfanswm o 14 o ddatganiadau o ddiddordeb gyda phum sefydliad yn y sector cyhoeddus yn cael eu gwahodd i ddatblygu cynlluniau mwy manwl ar gyfer y safle a oedd yn cael ei ystyried.

Ym mis Chwefror 2023, cafodd sefydliadau yn y trydydd sector yng Nghymru eu gwahodd hefyd i gyflwyno datganiadau o ddiddordeb a chafwyd cyfanswm o ddau. Mae un o'r rhain wedi'i wahodd i ddatblygu cynllun manylach.

Caiff penderfyniadau ym ymwneud ag asesu'r cynlluniau a ddaw i law, eu gwneud ar ddechrau 2024 ac os caiff safle ei ddewis i'w ddatblygu ymhellach, bydd y gwaith o'i ddatblygu yn dechrau o dan y model ar gyfer gwell achosion busnes a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru a'r Trysorlys.

Nes i safle a ffefrir gael ei ddewis, nid yw'n bosibl nodi lefel y buddsoddiad sydd ei angen er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu unrhyw oriel angor yn y dyfodol, sicrhau ei bod yn gynaliadwy a datblygu modelau gweithredol ar ei chyfer.

Nid yw'r union safleoedd wedi'u datgelu ym mhob achos oherwydd rhai materion sensitif sy'n ymwneud â'r safleoedd neu broblemau sy'n gysylltiedig â deiliadaeth yr eiddo sy'n cael ei ystyried yn y dyfodol.

**d) Digideiddio'r casgliad cenedlaethol**

Dechreuwyd ar y gwaith o ddigideiddio'r casgliad cenedlaethol yn 2020 ac mae bellach wedi arwain at lansio'r platfform adnoddau digidol, Celf ar y Cyd, ym mis Mehefin 2023. Mae Celf ar y Cyd yn un o nodweddion craidd Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol Cymru gyda'r gwaith o'i ddatblygu yn cael ei arwain gan Amgueddfa Cymru mewn partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae'n blatfform digidol sydd sy'n rhoi mynediad agored i gasgliad y genedl o gelf gyfoes.

Mae'r wefan a'i hadnoddau yn cynnig cyfle i bori, dysgu a chael eich ysbrydoli gan y Casgliad Cenedlaethol o Gelf yn Amgueddfa Cymru. Ar adeg ei lansio, roedd mwy na 30,000 o weithiau yn Amgueddfa Cymru wedi'u digideiddio er mwyn i'r cyhoedd allu eu gweld.

Wrth i'r platfform barhau i ddatblygu, bydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru hefyd yn ymgorffori ei chasgliad wedi'i digideiddio ynddo. Mae'r adnodd yn cynnig cyfle i'r naw oriel ledled Cymru ofyn am gael benthyg gweithiau, gan roi cyfle i fwy o bobl ledled Cymru weld y casgliad yn eu hardal leol. Bydd y rhwydwaith o naw oriel yn cael cyfle i gyfrannu cynnwys i'r wefan, sy'n ymateb i'r Casgliad Cenedlaethol o Gelf Gyfoes yn Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac yn ei adlewyrchu.

Y prosiect hwn, a ddatblygwyd ac a grëwyd yn sgil yr ymatebion a gafwyd i ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd ledled Cymru, yw'r cyntaf o'i fath. Gan nad oes rhai gweithiau erioed wedi cael eu harddangos yn gyhoeddus o'r blaen, mae'r

prosiect yn torri tir newydd drwy sicrhau bod casgliad cenedlaethol Cymru a'i chasgliad o gelf gyfoes yn wirioneddol hygyrch i gynulleidfa fyd-eang.

## 2 Manteision y model gwasgaredig, gan adeiladu ar asedau presennol a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru (8-10 safle rhanbarthol a chanolfan angor).

### a) Rhwydwaith Gwasgaredig

Mae'r model gwasgaredig/dosbarthedig yn ffordd o sicrhau y gall y casgliadau cenedlaethol o gelf gyfoes yng Nghymru gael eu mwynhau gan bawb a'u bod yn perthyn i bawb yng Nghymru.
Bydd y ffordd gyffrous hon o ddarparu oriel genedlaethol yn creu ymdeimlad newydd o berchenogaeth a chydweithrediad â sector y celfyddydau ledled y wlad.

Bydd hyn yn galluogi ffordd wirioneddol ddemocrataidd o weithio gydag orielau lleol yn gwneud penderfyniadau ar weithiau a fydd yn berthnasol i'w demograffeg leol. Bydd yn cynnig llu o gyfleoedd creadigol i gyfarwyddwyr a churaduron orielau ategu'r gweithiau y maent yn eu benthyca gan y casgliadau cenedlaethol o gelf gyfoes â gweithiau celf a ddelir yn lleol a chreu cyfleoedd i ymgysylltu a dysgu sy'n berthnasol i'r ardal leol.

Mae'r model hwn wedi'i ddatblygu er mwyn sicrhau bod gan bobl fwy o gyfleoedd i gael mynediad i gelf gyfoes a chyfranogi ynddi ac, ar yr un pryd, godi proffil Cymru fel cyrchfan ryngwladol ar gyfer twristiaeth ddiwylliannol.

Mae'r naw safle yn cynnwys orielau mawr a bach ac yn adlewyrchu dosbarthiad daearyddol ehangach ledled Cymru, sy'n golygu y bydd y casgliad cenedlaethol a chelf gyfoes yn fwy hygyrch. Rhagwelir y bydd y model yn helpu i gynyddu'r cynulleidfaoedd sy'n mynd i arddangosfeydd celf gyfoes ledled Cymru drwy sicrhau cynnydd o 30% o fewn 10 mlynedd gyntaf y prosiect.

Er bod pocedi o ragoriaeth, mae ymdeimlad nad oes gan Gymru ganolbwynt ar gyfer artistiaid gweledol cyfoes a chynulleidfaoedd o Gymru a gwledydd tramor. Bydd y model yn ceisio creu rhwydwaith cynaliadwy a chadarn ar bob lefel o ecoleg y celfyddydau. Bydd yn creu ffocws a hunaniaeth unigryw i gelfyddyd Gymreig a fyddai'n adnabyddus ar unwaith yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, ynghyd â'r tirweddau, y bobl a'r diwylliant sy'n ei hysbrydoli.

Mae'r penderfyniad i ddefnyddio lleoliadau presennol a buddsoddi ynddynt yn fuddsoddiad yn y seilwaith orielau presennol yng Nghymru, a fydd yn helpu'r orielau hyn i wella eu safonau.  Bydd hefyd yn gwneud celfyddyd yn fwy hygyrch yn lleol, gan leihau'r gost sy'n gysylltiedig â theithio pellteroedd hir i weld y casgliad a'r angen i wneud hynny, sydd bellach yn bwysicach nag erioed oherwydd yr argyfwng costau byw parhaus. Bydd y dull hwn o weithredu hefyd yn helpu i leihau ein hôl troed carbon drwy leihau pellteroedd teithio.

### b) Oriel/Safle Angor

Bydd oriel angor yn darparu pen blaen ffurfiol a phresenoldeb cyhoeddus amlwg i fodel Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol Cymru.

Ni fwriedir i'r penderfyniad i ychwanegu safle angor ar gyfer Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol Cymru gymryd lle cyfleusterau oriel sy'n bodoli eisoes ond bydd yn darparu canolbwynt i ategu darpariaeth yn y lleoliadau presennol a fydd, gyda'i gilydd, yn ffurfio rhan o fodel gwasgaredig Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol Cymru ledled Cymru.

Mae gwneud defnydd newydd o eiddo dros ben yn y sector cyhoeddus yn fan cychwyn da ar gyfer sicrhau cynaliadwyedd amgylcheddol unrhyw gyfleuster newydd. Yn unol ag arferion gorau Ystadau Cymru, gwnaeth y cais am ddarpar safleoedd gwmpasu eiddo a allai fod ar gael yn y sector cyhoeddus neu'r trydydd sector neu eu partneriaid.

Roedd y cais yn canolbwyntio ar adeiladau presennol y bydd angen eu haddasu neu eu hailgyflunio ond roedd hefyd yn darparu ar gyfer unrhyw safle heb ei ddatblygu a allai fodloni'r gofynion lleoliadol allweddol.

Bydd y safle angor yn denu ymwelwyr ac yn gwneud cyfraniad sylweddol at dwf yr economi ymwelwyr leol, y diwydiannau diwylliannol a chreadigol a sectorau cysylltiedig. Bydd datblygu oriel angor yn cynnig cyfle i adfywio canol trefi ac, yn ddiau, bydd y fenter "canol trefi yn gyntaf" yn ystyriaeth gref. Mae mynediad democrataidd i'r casgliad yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod profiad ymwelwyr mor gyfoethog a boddhaol â phosibl.

Bydd y lleoliad newydd a ddewisir yn ymgorffori egwyddorion a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac yn canolbwyntio ar wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yr ardal a Chymru gyfan, fel rhan o'r model ehangach.

Bydd manylion mwy penodol ar gael unwaith y bydd lleoliad wedi'i ddewis i'w ddatblygu.

## 3 Y ffactorau y dylid eu hystyried wrth asesu addasrwydd darpar safleoedd ar gyfer y gwahanol orielau.

Gan adeiladu ar yr astudiaeth ddichonoldeb gychwynnol (Event Communications 2018), gwnaed rhagor o waith ar ran Cyngor Celfyddydau Cymru gan y Swyddfa Pensaernïaeth Wledig a ystyriodd safleoedd posibl o fewn **model gwasgaredig**. Roedd yn cynnwys gwaith ymchwil, dadansoddi a gwerthuso mewn perthynas â gwahanol safleoedd ledled Cymru ac fe'i cyflwynwyd i ddechrau ym mis Ebrill 2020, gyda'r fersiwn derfynol yn cael ei chyflwyno ym mis Mai 2021.

Ystyriodd Bwrdd y Prosiect (a oedd yn cynnwys Cyngor y Celfyddydau, Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru) yr argymhellion mewn cyfarfod ar y cyd o Fwrdd y Prosiect a Phwyllgor Cyfalaf Cyngor y Celfyddydau ar 21 Medi 2022.

Yn dilyn y cyfarfod hwn, cyflwynwyd opsiynau ar gyfer hyd at 10 oriel i Fwrdd Trosolwg y Cytundeb Cydweithio ar 18 Hydref 2022 a chytunwyd y byddai hyd at naw o'r opsiynau hyn yn cael eu hystyried ymhellach. Cytunwyd hefyd y byddai o leiaf ddwy oriel letya yn y partneriaid cenedlaethol.

Mae'r orielau a nodir yn yr opsiwn a ffefrir wedi'u gwasgaru'n eang ledled Cymru ac (ar wahân i un) gellir eu cyrraedd ar drafnidiaeth gyhoeddus. Er y bydd yn rhaid i'r holl leoliadau sy'n rhan o'r prosiect fodloni'r holl feini prawf eraill, mae eu lleoliad yn hanfodol i lwyddiant y model ac mae'n ategu lleoliadau'r sefydliadau lletya (sef Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

Roedd y meini prawf ar gyfer dewis y lleoliadau yn cynnwys gofynion ffisegol a gweithredol y rhwydwaith dosbarthedig/gwasgaredig o orielau a oedd yn darparu'r fframwaith ar gyfer nodi'r orielau. Roedd y rhain yn cynnwys:

- sicrhau dosbarthiad daearyddol teg a rhoi mwy o fynediad i bobl ledled Cymru;
- darparu safonau diogelwch, safonau storio a safonau amgylcheddol ffisegol digonol a bodloni gofynion Cynllun Indemniad y Llywodraeth;
- y gallu i gynnig rhaglenni addysgol a rhaglenni ymgysylltu a chyd-greu gyda chymunedau;
- y gallu i gyflawni yn unol ag amserlen y prosiect a bod yn gynaliadwy am o leiaf bum mlynedd;
- staff â'r sgiliau arwain a churadu, y profiad a'r adnoddau i gyfrannu at weithgarwch cydguradu a chydgynhyrchu;
- fforddiadwyedd (o fewn cyllideb ddangosol Llywodraeth Cymru ar gyfer y prosiect).

Mae gofynion o ran mynediad a chyfleusterau i ymwelwyr ac artistiaid anabl yn dal i gael eu hasesu.

Ar gyfer yr **oriel angor**, lluniwyd rhestr o feini prawf hanfodol a dymunol a chytunwyd arni a gofynnwyd i sefydliadau gyflwyno datganiadau o ddiddordeb yn erbyn y meini prawf hyn. O'r cyflwyniadau a gafwyd, mae pum sefydliad yn y sector cyhoeddus ac un sefydliad yn y trydydd sector wedi'u gwahodd i ddatblygu eu cynigion ymhellach yn seiliedig ar sut y gwnaethant fodloni'r briff a'r meini prawf canlynol:

Anchor Site Draft Criteria#2.docx

bydd y meini prawf ar gyfer dewis y safleoedd posibl ar gyfer oriel angor ar y cam nesaf yn cynnwys asesiad o'r canlynol:

- Sut mae'r safle'n bodloni, neu sut y gallai fodloni, pob un o'r meini prawf a nodir yn y rhestr lawn o feini prawf a ddatblygwyd ar gyfer safle angor fel y'u hatodir,
- Y cynllun/opsiynau cychwynnol ar gyfer cynllun y safle sy'n bodloni'r gofynion uchod
- Yr esboniad o sut y byddai'r safle yn gweithio gydag amgueddfeydd ac orielau eraill gan gynnwys amgueddfa/oriel a allai fod yn rhan o ddatblygiadau ehangach ar gyfer Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol
- Sut y sicrheir cefnogaeth y cyhoedd neu sectorau i'r cais;
- Y costau amcangyfrifedig ar gyfer cyflawni'r cynllun;
- Y model cyllido a ddefnyddir ac o ble y ceisid cyfraniadau;
- Yr amserlen ar gyfer cyflawni'r prosiect.

Dyma'r meini prawf allweddol a ddefnyddir i asesu'r cynlluniau a gyflwynir er mwyn llywio penderfyniadau ynghylch lleoliad yn gynnar yn y flwyddyn galendr nesaf.

## 4 Manteision mynediad digidol i gelf gyfoes.

Mae Celf ar y Cyd yn gwneud casgliad cenedlaethol Cymru a'i chasgliad o gelf gyfoes yn fwy hygyrch nag erioed o'r blaen. Ymhlith y manteision allweddol mae:

**a) Gwell hygyrchedd:**

i. Mae mwy na 30,000 o luniau o weithiau celf ar gael ar hyn o bryd, gan gynnwys llawer nad ydynt erioed wedi cael eu harddangos yn gyhoeddus erioed o'r blaen gan gynnwys gweithiau bregus megis y rhai ar bapur y mae angen eu storio mewn bocsys solander tywyll er mwyn eu hatal rhag colli eu lliw a dirywio.

ii. Gallwch bellach weld y casgliad gan ddefnyddio eich ffôn symudol neu'ch cyfrifiadur heb orfod gadael eich cartref eich hun.

**b) Caiff mynediad gweledol democrataidd ei wella:**

i. Mae'r casgliadau yn perthyn i'r genedl, gall pawb yng Nghymru a thu hwnt h.y. cynulleidfaoedd rhyngwladol (sydd â mynediad i'r rhyngrwyd) bori, dysgu a chael eu hysbrydoli heb orfod teithio pellter hir. Nod y wefan yw newid y ffordd y mae pobl yng Nghymru, a thu hwnt, yn ymgysylltu â'n celf gyfoes.

ii. Er mwyn deall beth mae pobl yng Nghymru am ei gael gan wefan sy'n ymdrin yn benodol â chelf gyfoes, a chyn y gellid dechrau ar y gwaith o ddatblygu gwefan Celf ar y Cyd, cynhaliwyd ymgynghoriad a oedd yn cwmpasu Cymru gyfan. Ymgynghorwyd â mwy na 900 o bobl.

**c) Manteision i orielau partner:**

i. Mae'r wefan yn gweithredu fel ‘ffenest siop’ sy'n dangos y gweithiau celf yn y casgliad cenedlaethol. Gall orielau partner (yn ogystal â sefydliadau eraill yng Nghymru a thu hwnt) ymchwilio i'r casgliad wedi'i ddigideiddio ar gyfer benthyciadau ac er mwyn cynllunio arddangosfeydd. Mae Celf

ar y Cyd yn cynnig lle digidol rhyngweithiol ar-lein i orielau allu datblygu eu rhaglenni o arddangosfeydd/rhaglenni arddangos ymhellach.

ii. Bwriedir i'r wefan ddangos cyferbyniadau a chymariaethau diddorol drwy'r swyddogaeth chwilio sythweledol. Bydd hyn yn helpu orielau partner pan fyddant yn ymchwilio i weithiau i'w harddangos neu ar gyfer arddangosfeydd.

iii. Gan ddefnyddio'r cyfarpar camera eglur iawn a thechnoleg IIIF, gall orielau ymchwilio i weithiau celf a'u harchwilio yn fanwl.

**d) Mwy o gyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i ddysgu:**

i. Mae'r rhaglen dysgu digidol yn ymdrin â phob agwedd ar beth yw celf gyfoes Gymreig, beth mae'n ei wneud a sut mae artistiaid yn siarad â ni trwyddi. Gall defnyddwyr gael gwybod beth sy'n digwydd y tu ôl i'r llenni a chyfarfod â'r timau sy'n gofalu am y casgliad. Caiff defnyddwyr eu hysbrydoli i ymateb mewn ffyrdd creadigol. Bydd y gymuned ehangach yn ymgysylltu â'r casgliad drwy gynnwys golygyddol arloesol.

ii. Dangosodd yr ymgynghoriad nad oes eisiau cynlluniau gwersi caeth ar addysgwyr ond bod yn well ganddynt adnoddau y gellir eu defnyddio i weddu i'w rhaglenni.

## 5 Cynaliadwyedd Tymor Hwy

Mae cynaliadwyedd tymor hwy y model yn ffactor pwysig wrth benderfynu a yw'r cynigion yn ddichonadwy unwaith y bydd y buddsoddiad cychwynnol yn y gwaith o greu'r ased wedi'i gwblhau.


Ar gyfer y rhwydwaith gwasgaredig, rydym yn aros am gynllun manylach gan y partneriaid sy'n ymwneud â'r agwedd hon ar y ddarpariaeth yn y dyfodol. Rydym wedi cytuno y caiff y cynllun hwn ei gyflwyno fel rhan o'r achos busnes llawn a gaiff ei ddatblygu a'i gyflwyno cyn diwedd y flwyddyn galendr.

Yn yr un modd, bydd mwy o fanylion ar gael ar gyfer yr oriel angor, unwaith y bydd safle wedi'i ddewis ac achos busnes mwy manwl wedi'i lunio.

Fodd bynnag, yn y ddau achos y disgwyliad yw na fydd cynaliadwyedd yn dibynnu ar gyllid gan Lywodraeth Cymru yn unig ac y bydd llai o ddibyniaeth ar gyllid canolog. Sicrheir hyn drwy elfennau masnachol megis nawdd, rhoddion, dyngarwch, gwerthu nwyddau a chyllid a godir drwy incwm ar eiddo deallusol a thrwy godi tâl am elfennau megis arddangosfeydd teithiol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau gwell cydbwysedd rhwng ffynonellau cyllido ac unrhyw refeniw gan Lywodraeth Cymru y bydd ei angen yn y dyfodol. Ni phenderfynwyd ar union gydbwysedd yr elfennau hyn eto ac mae'n bosibl y bydd yn amrywio dros amser.

Mae'r ymagwedd hon at gyllid yn adlewyrchu'r cyd-destun ariannol presennol a'r ffaith, mewn ymateb i'r sefyllfa hon, fod angen ystyried arbedion maint o fewn y gyllideb gyffredinol.

## Atodiad 1 – Amserlen Gryno Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol Cymru



| **Meini Prawf Drafft** | **Hanfodol** | **Dymunol** |
|---|---|---|
| **Meini prawf ar gyfer yr amgueddfa a'r ardal arddangos:** | | |
| 7,500–15,000m2 , gydag o leiaf dwy ran o dair o hyn yn ofod oriel, gydag o leiaf un oriel unigol o 1,000m2 a photensial i estyn ymhellach yn y dyfodol | 7,500m2 | 12,000m2 (mwy os yn bosibl) Y posibilrwydd o'i estyn ymhellach rywbryd yn y dyfodol |
| Byddai angen uchder o 6 metr ym mhrif ardaloedd yr oriel. ac yn rhai ardaloedd o'r oriel byddai angen uchder o 10 metr, er enghraifft ar gyfer cerfluniau | 6m | 10m |
| Menter neu bartneriaeth ar y cyd ag Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru fel ceidwaid y casgliad cenedlaethol. Mae'n annhebygol iawn y bydd gan y sefydliad ei gasgliad ei hun yn y byrdymor. | x | |
| Mae ganddi bartneriaeth gadarn ag orielau yn y model gwasgaredig ac mae'n cefnogi ecosystem yr orielau/nid yw'n cystadlu â hi. | x | |
| Adeilad sydd â'r gallu i ddarparu ar gyfer nifer sylweddol o ymwelwyr yn flynyddol | 750,000 (2,000/diwrnod ar gyfartaledd) | 1 miliwn (3,000/diwrnod ar gyfartaledd) |
| Sefydliad sydd ag arbenigedd digonol ym meysydd curadu, cadwraeth, rheoli casgliadau ac arddangosfeydd, galluoedd cofrestrydd a gweithwyr amgueddfa proffesiynol eraill neu a allai gael gafael ar hyn e.e. drwy Amgueddfa Cymru | x | |
| Y gallu a'r adnoddau i gynnal o leiaf bedair arddangosfa dros dro/y flwyddyn (dwy arddangosfa fawr, dwy arddangosfa fach) ynghyd â benthyciadau neu gaffaeliadau hirdymor. (Awgrymir arddangosfeydd mawr yn costio tua £2-3m ac arddangosfeydd bach yn costio £1-1.5m ond mae angen mesur hyn.) | 2 arddangosfa fawr, 2 arddangosfa fach | 3 arddangosfa fawr, 3 arddangosfa fach |
| Sefydliad ac arweinydd sydd ag enw digon da yn rhyngwladol i ddenu sefydliadau rhyngwladol a chenedlaethol a ffurfio partneriaeth â nhw yn ogystal â chefnogi ecosystem orielau leol Cymru | x | |
| Gall y sefydliad gydymffurfio â'r Canllawiau ar Achredu Amgueddfeydd a bodloni'r meini prawf ar gyfer 'amgueddfa o fath cenedlaethol' o ran cyfleusterau a chwmpas a maint yr arddangosfa. Bydd y safle angor yn cynnig cyfleusterau ymwelwyr sy'n briodol i sefydliad 'cenedlaethol'. | x | |

| | | |
|---|---|---|
| Bydd y sefydliad yn gweithio yn unol ag Egwyddorion Cyfarwyddwyr Amgueddfeydd Cenedlaethol ar gyfer Rhoi Benthyg a Benthyca gan gynnwys y disgwyliad y bydd yn cyrraedd y safonau ar gyfer amgylchedd a diogelwch a nodir yng Nghanllawiau Cynllun Indemniad y Llywodraeth i sefydliadau nad ydynt yn rhai cenedlaethol neu fel y cytunir â'r sefydliad sy'n rhoi benthyg. | x | |
| Potensial i gydlynu / hwyluso arddangosfeydd teithiol | | x |
| Arbenigedd a gwybodaeth sylweddol o ran marchnata a rheoli cysylltiadau cwsmeriaid | x | |
| **Mynediad, seilwaith a lleoliad** | | |
| Bydd angen seilwaith trafnidiaeth (ffyrdd a rheilffyrdd) er mwyn sicrhau mynediad digonol i niferoedd mawr o bobl. Gall cysylltiadau trafnidiaeth â'r safle fod yn gyfaddawd rhwng: • safleoedd trefol ag opsiynau trafnidiaeth gwahanol; neu • lleoliadau mwy gwledig / ynysig â chysylltiadau trafnidiaeth | x | |
| Seilwaith twristiaeth (h.y. nifer digonol o westai, lleoedd i aros ynddynt dros nos, dewis o fwytai). | x | |
| Digon o fannau parcio ar gyfer nifer yr ymwelwyr (tua 500 o fannau parcio) | | x |
| Agosrwydd i ganolfannau trefol mawr / atyniadau twristiaeth eraill (o fewn *x*awr neu *y*milltir). Gellir ystyried lleoliad gwledig os oes cysylltiadau trafnidiaeth addas. Cysylltiadau ffyrdd a rheilffyrdd yn ddelfrydol. | x | |
| Ardal drefol fawr neu atyniad i dwristiaid sy'n bodoli eisoes neu'r potensial i ddenu digon o ymwelwyr, gan gynnwys ymwelwyr rhyngwladol (e.e. yn achos ymwelwyr rhyngwladol gallai hyn olygu o fewn awr i faes awyr neu borthladd.) | x | |
| Dylai'r lleoliad gynnwys potensial ar gyfer adfywio | x | |
| **Nodweddion yr adeilad:** | | |
| Adeilad sy'n dirnod, naill ai'n adeilad newydd neu'n rhan o dreftadaeth bresennol Cymru. Darn arwyddocaol o bensaernïaeth yn ei rinwedd ei hun, yn ei gydbwyso fel 'magnet' a chwmpas costau posibl – gall fod yn adeilad newydd neu adeilad sydd wedi'i addasu at ddibenion gwahanol | | x |
| Storfeydd sylweddol ar gyfer casgliadau, gan gynnwys amodau diogelwch ac amgylcheddol addas | x | |

| | | |
|---|---|---|
| Ardaloedd digonol ac ar wahân ar gyfer adeiladu arddangosfeydd ac ar gyfer newid o un arddangosfa i'r nesaf | x | |
| Darpariaeth ddigonol ar gyfer cludo – e.e. trafnidiaeth/ardal ddadlwytho wedi'i gorchuddio | x | |
| Mynediad digonol a ddarperir gan lifft ddigon mawr ar gyfer symud casgliadau yn yr adeilad | x | Sydd ar wahân i lifftiau ymwelwyr |
| Cyfleusterau cadwraeth ac arbenigedd neu'r gallu i gael gafael arnynt yn hawdd | x | |
| Mynediad hawdd i ymwelwyr anabl (neu'r gallu i addasu'r adeilad os yw'n un hanesyddol) | x | |
| Lleoedd stiwdio i 'Artistiaid preswyl' (cylchdroadol nid parhaol) | | x |
| Uchder a chapasiti llwytho digonol/sylweddol ar gyfer gosodiadau mawr a chyfarpar i'w harddangos | x | |
| cliriadau a chliriadau troi digonol/sylweddol mewn perthynas â drysau, coridorau, lifftiau ac ati | x | |
| Lleoedd hyblyg i ddarparu ar gyfer mathau gwahanol o arddangosfeydd ac arddangosfeydd o faint gwahanol | x | |
| Lle i gaffi, ardal fanwerthu a chyfleoedd cynhyrchu incwm eraill gan gynnwys y tu allan i oriau | x | |
| Lle ar gyfer yr 21ain ganrif a all ddarparu ar gyfer gosodiadau digidol mawr a chyfryngau newydd (e.e. Blavatnik) | x | |
| Arferion adeiladu cynaliadwy a defnydd cynaliadwy o ynni (gan gynnwys effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy) | | |
| Lle i ganolfan dysgu ac ymgysylltu | x | |
| Lle cymunedol hyblyg | | x |
| Yn berthnasol i'r gymuned leol – mae'r gweithgaredd yn ymgysylltu â'r boblogaeth leol ac mae'n cael ei defnyddio ganddi | | x |
| Mae'n annog mynediad a chyfranogiad i bob cymuned | | x |
| Mae'n hyrwyddo ac yn annog datblygu talent ifanc a sgiliau â chysylltiadau â'r cwricwlwm a pholisïau newydd/heb fod yn oddefol er mwyn cynyddu creadigrwydd ac ysbrydoli pobl ifanc | x | |
| **Ystyriaethau polisi:** | | |
| Y gallu i sicrhau refeniw/y flwyddyn sylweddol (hyd yn oed yn Llundain mae orielau yn cael cymorth refeniw parhaus sylweddol, yn ogystal | Refeniw o £5m y flwyddyn+, | Refeniw o £10m y flwyddyn+, |

| | | |
|---|---|---|
| â chyfalaf ar gyfer cyrff a noddir sydd eisoes yn bodoli er mwyn ffurfio partneriaeth ac ar gyfer gweithgarwch ychwanegol. Mae angen y refeniw ar gyfer 3-5 mlynedd cyn agor oherwydd y costau ymlaen llaw sy'n gysylltiedig â chynnal arddangosfeydd mawr. | cyfalaf gwerth £500k. | cyfalaf gwerth £1k |
| Mae'n cefnogi ac yn hyrwyddo cynnig diwylliannol ehangach yng Nghymru, ar lefel genedlaethol a lleol, ac nid yw'n amharu ar y cynnig diwylliannol presennol | x | |
| Yn cyd-fynd â datblygiadau polisi eraill ac yn gysylltiedig â strategaethau eraill Llywodraeth Cymru ac ymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraeth neu'n eu cefnogi | x | |
| Dim ond rhan o'r casgliad cenedlaethol y gall ei lletya ar unrhyw adeg benodol ac nid dim ond eitemau dethol am fod angen iddo eu harddangos ei hun a'i rannu â sefydliadau eraill, gan gynnwys benthyciadau y codir tâl amdanynt. Mae'r casgliad cenedlaethol o gelf gyfoes yn y casgliad cenedlaethol yn cynnwys hyd at 50,000 o eitemau o gelf gyfoes, y mae llawer ohonynt yn weithiau ar bapur sydd ond yn gallu cael eu harddangos am gyfnod cyfyngedig. | x | |
| Mae'n fuddiol lletya pob math o gelfyddyd weledol ac nid dim ond celf gyfoes er mwyn sicrhau'r cynulleidfaoedd mwyaf posibl a gwneud y mwyaf o'r casgliad cenedlaethol. Ffocws estynedig i weithiau celf hanesyddol – Cymreig a rhyngwladol (Argraffiadwyr), y ffordd y mae cymdeithas yn myfyrio ar weithiau celf, ystyriaethau ar draws amser | | x |
| Potensial i archwilio gwaith celf yn yr awyr agored, megis cerfluniau, yn enwedig os yw tir yn perthyn i'r lleoliad a bod potensial i ddefnyddio'r ardal cerfluniau fel ffordd wahanol o ddod â gwaith celf a'r byd natur ynghyd | | x |
| Rhaid i unrhyw sefydliad sydd eisoes yn arddangos casgliadau o weithiau celf hanesyddol/casgliadau sy'n ymwneud â hanes cymdeithasol neu leol ddangos sut y bydd arddangos casgliadau newydd o gelf gyfoes yn gwella profiadau ymwelwyr heb golli mynediad i hanes lleol ar gyfer cymuned y sefydliad hwnnw. | x | |

| | | |
|---|---|---|
| Mae angen ymgynghori ar opsiynau arfaethedig yn unol â Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol | x | |
| Mae'n hollbwysig bod mynediad am ddim i'r casgliad parhaol (gellid ystyried model hybrid lle y rhoddir mynediad am ddim i'r casgliad cenedlaethol ond y gellid codi tâl am arddangosfeydd/digwyddiadau arbennig er mwyn sicrhau ei fod yn fforddiadwy – mae hyn yn gyson â'r polisi sy'n ymwneud â'r Amgueddfeydd Cenedlaethol). | x | |
| Byddai'n fuddiol petai gan y sefydliad gyllideb ar gyfer caffaeliadau er mwyn iddo ddatblygu ei gasgliad ei hun yn hytrach na dibynnu ar fenthyciadau? Byddai angen i unrhyw bolisi ar gasgliadau gyd-fynd â'r polisïau hyn sydd eisoes yn cael eu rhoi ar waith gan sefydliadau eraill. | | x |
| Mae angen dysgu gwersi o fenter aflwyddiannus Canolfan y Celfyddydau Gweledol (a oedd yn cael ei rhedeg gan ymddiriedolaeth Hen Lyfrgell Caerdydd) | x | |
| Seilwaith digonol a band eang a all ddarparu'r ystod lawn o gelf gyfoes. Byddai'n ddymunol petai'n bosibl cynnwys lle i arddangosfeydd ymgollol a phrofiadol ('experiental') ar gyfer amrywiaeth o arddangosfeydd digidol (e.e. estyniad Tate Modern) | x | Lle i arddangosfeydd ymgollol a phrofiadol |
| Mae angen sicrhau opsiynau mynediad digidol fel ffordd allweddol o ddemocrateiddio a hyrwyddo mynediad i'r casgliad cenedlaethol | x | |
| Mae angen ystyried caniatâd cynllunio ac amseroedd datblygu | tua 5 mlynedd | tua 10 mlynedd |

.

# Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol, Cymru

## Cynnig Safle Angori Bae Caerdydd

**Y CYNNIG**

Mae ein cais yn nodi pam mai Glanfa'r Iwerydd ym Mae Caerdydd yw'r lleoliad gorau a mwyaf addas yng Nghymru ar gyfer y safle angori newydd ar gyfer Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol, Cymru. Nod ein cynnig yw cyflwyno rhywbeth fydd yn berthnasol yn rhyngwladol, wedi ei sbarduno gan egwyddorion cynwysoldeb a chynaliadwyedd, ac yn rhoi cyfle i gynifer o bobl – o Gymru a thu hwnt - fod yn rhan o stori Cymru.

Byddai safle angori Bae Caerdydd ar gyfer y model gwasgaredig yn darparu llwyfan blaenllaw i artistiaid cyfoes o bob cwr o Gymru ac artistiaid rhyngwladol arddangos yng Nghymru. Mae gan gelf weledol gyfoes ar draws Cymru rwydwaith a chysylltiadau da, ac mae artistiaid a churaduron yn gweithio'n agos ac yn cefnogi ei gilydd i hyrwyddo a galluogi creu a chyflwyno celf gyfoes. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod angen mwy o fuddsoddiad refeniw i ddatblygu cydgynhyrchu ar draws y rhwydwaith ac i gefnogi celf gyfoes ffyniannus Cymru.

**Egwyddor sylfaenol ar gyfer y prosiect hwn yw y byddai'r cyfleuster yn cefnogi orielau presennol sydd yn rhan o'r model gwasgaredig, a gofod, artistiaid a threfniadaeth celf gyfoes arall yng Nghymru.** Bydd gwaith hefyd yn cael ei wneud i sicrhau bod y prosiect hwn yn gweithio i'r sector y bwriedir iddo ei gynrychioli, a byddem yn sicrhau bod y sector yn cymryd rhan lawn yn y gwaith datblygu. Mae cydweithio ac ymgynghori ag arbenigwyr yn y maes celf gyfoes, artistiaid a churaduron yn bennaf, yn hanfodol i lwyddiant y prosiect hwn. **Ein nod yw gweithio'n agos gydag artistiaid a churaduron i lunio'r safle angori i ddiwallu eu hanghenion yn y ganolfan ragoriaeth hon, gan wella cyfleoedd cynhyrchu ac arddangos, gan alluogi ymarferwyr creadigol i gyflwyno i'r cynulleidfaoedd mwyaf posibl yng Nghymru.**

Mae cynhyrchu a chyflwyno yn agweddau pwysig ar ymarfer celf gyfoes, ac mae mynediad i'r ddau yn hanfodol i greu dealltwriaeth o'r ffordd y caiff celf ei gwneud a pham. **Felly bydd y safle angori hefyd yn ganolfan ar gyfer sgyrsiau am bob maes o ymarfer celf gyfoes: o berfformio a delweddau symudol, i waith digidol a sain, i ymarfer cymdeithasol a chyfranogol.**

Gallai'r ganolfan hon ar gyfer celf gyfoes fod yn fan lle gellid trafod a mireinio syniadau yn ymwneud â chelf ar dir cyhoeddus; lle gallai artistiaid roi cynnig ar bethau newydd a siarad â'r cyhoedd sy'n ymweld am eu proses ac, wrth gwrs, gallai gynnal arddangosfeydd teithiol, rhoi cyfle i guraduron ac artistiaid weithio ar raddfa fwy a mwy uchelgeisiol, darparu ffocws ar gyfer sgyrsiau yn y cyfryngau, bod yn gyfrwng ar gyfer mentrau fel Cymru yn Fenis, a chartref i Artes Mundi, adnodd addysgol i athrawon a myfyrwyr ar bob lefel a bod yn sbardun ar gyfer symud syniadau ymlaen ynghylch addysg orielau.

Mae safle Glanfa'r Iwerydd wedi cael ei ddewis yn benodol oherwydd ei allu i ddarparu ar gyfer nifer fawr o ymwelwyr, yn ogystal â'i allu i ddenu nifer fawr o ymwelwyr. **Ar ben hynny, dewiswyd y safle ar sail ei allu i ategu sefydliadau diwylliannol allweddol eraill** – presennol ac arfaethedig. Fel un enghraifft, mae Canolfan Mileniwm Cymru yn croesawu dros 1.8 miliwn o ymwelwyr yn rheolaidd bob blwyddyn. Mae'r Arena Cerddoriaeth Dan Do arfaethedig hefyd yn seiliedig ar fodel busnes fydd yn darparu ar gyfer miliwn o ymwelwyr sy'n talu bob blwyddyn.

Ar hyn o bryd, gorsaf bresennol Bae Caerdydd yw'r 6ed a ddefnyddir fwyaf yng Nghymru, gyda thua 1.5 miliwn o geisiadau ac mae'n bodoli yn 2019/20. Cynigir y cyllid a sicrhawyd ar gyfer Cam 1 Cledrau Croesi sy'n cysylltu Bae Caerdydd a'r safle hwn yn uniongyrchol â Chaerdydd Canolog, yn ogystal â gorsaf ychwanegol yn Stryd Pen y Lanfa i gynyddu capasiti rheilffyrdd yn sylweddol. Ynghyd â thrydaneiddio Llinellau Craidd y Cymoedd sy'n cynnwys y llinell bresennol i Fae Caerdydd, y disgwyl yw y bydd y nawdd yn llawer mwy na 2 filiwn o deithwyr y flwyddyn. **Bydd hyn yn gwneud y safle yn un o'r rhai mwyaf hygyrch yng Nghymru ar drafnidiaeth gyhoeddus (yn ogystal â dulliau teithio llesol) gan sicrhau ei fod yn agored i bobl ledled Cymru.**

Yn hanfodol i hyn mae datblygiad adeilad all **groesawu pobl o bob oed a gallu drwy bob dull o deithio.** Mae hyn yn cynnwys mynediad heb risiau ar drafnidiaeth gyhoeddus o orsaf Bae Caerdydd a gorsaf newydd arfaethedig Stryd Pen y Lanfa i'r oriel newydd.

**PWYSIGRWYDD STRATEGOL CELF GYFOES**

Mae gwyliau celfyddydol cyfoes fel Caerdydd Gyfoes wedi darparu cyfleoedd celf gyfoes ledled Cymru yn y Brifddinas, gan feithrin ecosystem gymhleth o artistiaid, curaduron ac arloeswyr, i ddarparu arlwy diwylliannol amrywiol rhyngwladol. Rydym wedi treialu a phrofi'r hyn sy'n bosibl fel catalydd ar gyfer cydlynu ein harlwy celfyddydol cenedlaethol a rhyngwladol. **Mae Caerdydd wedi ymrwymo i gynyddu dyheadau diwylliannol ar draws y ddinas a Chymru, i fod yn rym blaenllaw mewn cynyrchiadau a chyflwyniadau celf gyfoes amrywiol.** Gan weithio gyda phartneriaid arweiniol, byddem yn ceisio datblygu'r cyfrwng a’r model llywodraethu mwyaf addas, er mwyn sicrhau llwyddiant gweithredol, gan archwilio capasiti, anghenion adnoddau ac arbenigedd i ddarparu'r safle angori blaenllaw hwn ar gyfer Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol, Cymru.

Bwriad safle angori Glanfa'r Iwerydd ar gyfer Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol Cymru, yw cael rôl amlwg i gydlynu a hwyluso arddangosfeydd celf dros dro cyfoes. **Bydd hyn yn creu cartref yn y brifddinas i arddangos y celf gyfoes orau yng Nghymru, gan weithio'n agos gyda'r holl safleoedd a sefydliadau celf gyfoes dethol ar draws Cymru sy'n rhan o'r model gwasgaredig, gan ddatblygu arddangosfeydd rhyngwladol i arddangos a chyflwyno i'r cynulleidfaoedd mwyaf posibl yng Nghymru.**Byddai'r cyfleuster nodedig hwn yn trefnu rhaglen gyffrous o gelf gyfoes, gan gynnal o leiaf 3 arddangosfa celf gyfoes fawr a 3 ategol o safon fyd-eang bob blwyddyn.

Y weledigaeth yw datblygu **llwyfan rhyngwladol enwog** i dderbyn sioeau, preswylfeydd a gweithgareddau rhyngwladol i gadarnhau proffil Cymru ymhellach ar y llwyfan diwylliannol rhyngwladol, gan adeiladu ar lwyddiant Artes Mundi, Cymru yn Fenis a phartneriaethau rhyngwladol sefydledig.

Bydd gan safle angori Glanfa'r Iwerydd ar gyfer Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol, Cymru **rôl flaenllaw yn cydlynu ac yn hwyluso arddangosfeydd celf gyfoes dros dro gan greu cartref yn y brifddinas i arddangos celf gyfoes orau Cymru**, gan weithio'n agos gyda'r holl safleoedd a sefydliadau celf gyfoes dethol ar draws Cymru sydd yn rhan o'r model gwasgaredig, gan ddatblygu arddangosfeydd rhyngwladol i'w harddangos i'r cynulleidfaoedd mwyaf posibl yng Nghymru.  (Bydd yr orielau sy'n rhan o'r model gwasgaredig yn dal i gael eu pennu a'u cadarnhau wrth eu cyflwyno).

**Disgwylir i arddangosfeydd teithiol fod yn rhan allweddol o'r rhaglen ar gyfer y safle angori ar gyfer Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol, Cymru.** Rydym wedi disgrifio'r cyfleuster ffisegol a all ddarparu ar gyfer amrywiaeth o arddangosfeydd teithiol yn hawdd. Byddem hefyd yn gweithio gydag orielau cenedlaethol a rhyngwladol sefydledig i gydlynu a chyflwyno arddangosfeydd teithiol arwyddocaol i bobl Cymru ym Mhrifddinas Cymru. Byddem hefyd yn sicrhau y byddai arddangosfeydd newydd fyddai'n cael eu harddangos yn y safle angori yng Nghaerdydd, yn teithio i safleoedd celf gyfoes ledled Cymru, fel rhan o'r model gwasgaredig lle bo hynny'n briodol.

**MYNEDIAD, SEILWAITH A LLEOLIAD**

**Y safle hwn yw un o'r rhai mwyaf hygyrch yng Nghymru o ran seilwaith ffyrdd a rheilffyrdd.** Ar hyn o bryd mae'n cael ei wasanaethu gan orsaf Bae Caerdydd, sy'n gwasanaethu 1.5 miliwn i mewn ac allan bob blwyddyn, yn ogystal â'r A4232 sy'n cysylltu'r safle yn uniongyrchol â'r M4 a rhwydwaith ffyrdd ehangach Cymru. Mae Maes Awyr Caerdydd hefyd o fewn 10 milltir uniongyrchol i'r safle, yn ogystal â glanfa hofrenyddion o fewn milltir i'r safle. Yn ogystal, bydd y safle'n elwa ar drydaneiddio Llinellau Craidd y Cymoedd fydd yn arwain at wasanaethau uniongyrchol i Fae Caerdydd o Gymoedd De Cymru, treblu capasiti'r trenau, platfform ychwanegol ym Mae Caerdydd a dyblu'r trac i mewn ac allan o'r Bae. Bydd y gwaith hwn yn cael ei wella ymhellach gan y cyllid a sicrhawyd i gysylltu Bae Caerdydd â Chaerdydd Canolog fel rhan o Gam 1 Cledrau Croesi.

**O ganlyniad i'r ddarpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus bydd y safle yn hygyrch i gymunedau ledled Cymru, gan sicrhau bod pawb yn gallu cael mynediad. Y bwriad yw y bydd y safle'n canolbwyntio'n bennaf ar gefnogi mynychwyr i ddod gan ddefnyddio teithio cyhoeddus a llesol i sicrhau bod y safle'n groesawgar i bawb, ac nid dim ond y rhai sy'n teithio mewn car. Ystyrir hyn ac mae'n rhan hanfodol o'r cynnig o gofio y byddai safle ceir yn unig yn cyfyngu mynediad i gymunedau tlotach yng Nghymru, y rhai na allant ddefnyddio cerbydau preifat, pobl iau ac ymwelwyr sy'n dod i mewn nad ydynt yn teithio mewn car. Yn gyffredinol, y safle fyddai'r opsiwn mwyaf hygyrch yng Nghymru, gan ddarparu mynediad heb risiau o bob math o drafnidiaeth, gyda'r cyrhaeddiad mwyaf o ran**

**poblogaeth o'r holl leoliadau arfaethedig. Mae hyn hefyd yn golygu bod y lleoliad hefyd yn hygyrch i ardaloedd ynysig ledled Cymru mewn ffyrdd nad yw lleoliadau eraill.**

**POTENSIAL ADFYWIO**

Mae'r safle'n rhan o uwchgynllun ehangach sy'n cefnogi creu cyrchfan ddiwylliannol sydd yn bwysig yn genedlaethol. Yr uchelgais yw creu clwstwr o leoliadau a sefydliadau diwylliannol ar un safle sy'n darparu cyrchfan yn ei rhinwedd ei hun, waeth pa ddigwyddiadau sy'n cael eu cynnal. Mae'r dull hwn o greu cyrchfan sy'n gysylltiedig â diwylliant a chreadigrwydd yn ei wneud yn safle delfrydol ar gyfer yr oriel celf gyfoes arfaethedig. Bydd hefyd yn darparu ar gyfer defnydd ategol, yn ogystal â'r potensial i'r safle ehangach gael ei ddefnyddio at ddibenion arddangos. Mae hyn yn cynnwys sgwâr digwyddiadau cyhoeddus fydd yn cael ei greu yng nghanol safle Glanfa'r Iwerydd fyddai â photensial ar gyfer arddangosfeydd a chelf perfformio cyhoeddus yn yr awyr agored.

Yn ogystal, mae gan y safle ymrwymiad hirsefydlog i ddatblygu fel cyrchfan i ymwelwyr. Mae gan Gyngor Caerdydd reolaeth dros holl safle Glanfa'r Iwerydd ac mae'n parhau i ddatblygu'r uwchgynllun a denu buddsoddiad i'r safle. Mae caniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer uwchgynllun y safle sy'n cael ei farchnata a'i hyrwyddo ar hyn o bryd fel cyrchfan economi ddiwylliannol ac ymwelwyr.

Ar ben hynny, mae'r safle hefyd yn rhan o uchelgais ehangach o adfywio ar gyfer Butetown a Bae Caerdydd. Cofnodwyd y dull hwn yng nghais llwyddiannus y Gronfa Ffyniant Bro gwerth £100m oedd yn amlinellu uchelgais ar gyfer adfywio Bae Caerdydd wedi ei arwain gan drafnidiaeth. Y nod yw cyflwyno rhaglen adfywio gynaliadwy sydd wedi'i hymgorffori yn egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy greu cyrchfan gyntaf Cymru gyda thrafnidiaeth gynaliadwy yn ddull tybiedig o gyrraedd y safle. Gan mai trafnidiaeth sy'n cyfrannu fwyaf o bell ffordd at allyriadau carbon unrhyw leoliad neu ddigwyddiad, ystyrir bod hyn yn rhywbeth y mae'n 'rhaid ei wneud' o ran strategaeth adfywio cynaliadwy.

**Lleolir y safle hefyd ymhlith rhai o gymunedau mwyaf amrywiol Cymru ac mae'n gyfle i gefnogi adfywio ar gyfer rhai o gymunedau Cymru sydd wedi cael eu hanwybyddu o'r blaen o ran buddsoddiad.** Bydd y Cyngor yn rhoi dulliau ychwanegol ar waith i gefnogi cysylltiadau â datblygu cymunedol i greu cyfleoedd i drigolion lleol ar draws amrywiaeth o swyddi, ond bydd hefyd yn darparu hyfforddiant a chymorth sy'n gysylltiedig yn benodol â'r diwydiannau diwylliannol a chreadigol.

Ym mis Gorffennaf 2021, cymeradwyodd y Cabinet Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MOU) gyda WMC i ddechrau Partneriaeth Cynhyrchu Diwylliannol Glanfa'r Iwerydd gyda'r nod o weithio tuag at ddatblygu meysydd gweithio ar y cyd. Mae hyn yn cynnwys datblygu gweledigaeth a rennir a rhaglen waith i alinio strategaeth economaidd a chynlluniau datblygu'r sector creadigol yng Nghaerdydd i fanteisio i'r eithaf ar ddatblygu talent, addysg greadigol y celfyddydau mynegiannol ac i gefnogi cynhyrchu a pherfformio i hybu proffil diwylliannol rhyngwladol y ddinas ac i ysgogi twf cynhwysol yn y diwydiannau creadigol yng Nghaerdydd. Mae'r amcanion allweddol yn cynnwys:

- Codi proffil rhyngwladol y sector creadigol yng Nghaerdydd.
- Cynyddu gwerth cynhyrchu creadigol a diwylliannol yng Nghaerdydd.
- Cynyddu presenoldeb a chyfranogiad mewn digwyddiadau cynyrchiadau creadigol/diwylliannol yng Nghaerdydd.
- Cefnogi llif talent amrywiol i gynnal y sector creadigol yng Nghaerdydd.

Fel rhan o'r cytundeb hwn, mae'r WMC wedi nodi dyhead i ddarparu cyfleuster Stiwdio Cynhyrchu newydd yn agos at eu hadeilad presennol a'r safle angori arfaethedig newydd ar gyfer Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol, Cymru. Mae'r Cyngor wedi gweithio gyda WMC i ddatblygu cynnig hyfyw fel rhan o gynllun adfywio Glanfa'r Iwerydd. Nod y prosiect Stiwdios Cynhyrchu, a elwir yn 'Capella', yw hwyluso cynhyrchu 'cynnwys' lleol a chenedlaethol i gefnogi cynnig WMC a helpu i ddatblygu'r arlwy diwylliannol yng Nghaerdydd a Chymru, mae hyn yn cynnwys arloesedd a mannau digidol, fydd yn darparu cyfleoedd cysylltiedig perthnasol i Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol, Cymru.

Bydd Strategaeth Ynni benodol hefyd yn cael ei rhoi ar waith ar gyfer y safle er mwyn sicrhau bod y datblygiad cyffredinol yn garbon niwtral. Bydd hyn yn cynnwys elfennau fel y rhwydwaith gwresogi ardal a chynlluniau ynni adnewyddadwy.

**Mae lleoliad yr adeilad yn benderfyniad sylfaenol o ran ei gynaliadwyedd - dewis lleoliad sydd â chymuned uniongyrchol ac ymwelwyr diwylliannol, er mwyn cyfiawnhau ei fodolaeth a chynnal ei ddefnyddioldeb.** Lleoliad sy'n briodol boblog a/neu a wasanaethir gan seilwaith trafnidiaeth gynaliadwy sy'n darparu cysylltiadau ledled Dinas, Cymru a thu hwnt. Credwn fod Bae Caerdydd yn cynnig lleoliad o'r fath, ac yn cyflwyno cyfle i adfywio safle 'tir llwyd' hanesyddol

**GOFOD AR GYFER CANOLFAN DDYSGU AC YMGYSYLLTU**

Roedd 'Addysg' a 'Chymuned' yn ystyriaethau hanfodol wrth lunio'r cynnig, yn enwedig o ran sicrhau defnydd hirdymor a chynaliadwyedd adeilad yr oriel. I'r perwyl hwn, ymgynghorodd tîm y prosiect â llawer o arbenigwyr lleol yn y maes, cyn i unrhyw waith dylunio ddigwydd – proses fyddai'n anochel yn parhau, cyn unrhyw ddylunio ac adeiladu pellach.

Y tu hwnt i'r oriel ei hun, nod yr adeilad fydd mynd i'r afael â'r gymuned gyda gosodiadau celf wedi'u lleoli o fewn ardal gyhoeddus uniongyrchol Glanfa'r Iwerydd, ardal ehangach Bae Caerdydd a chanol y ddinas. Ar wahân i ddarparu amgylchedd ffisegol i ymgysylltu â'r gymuned, byddai'r oriel hefyd yn cynnig llwyfan digidol rhyngweithiol lle byddai ymwelwyr 'rhithwir' yn gallu ymgysylltu o bell ag arddangosion yr oriel a'r rhaglen Addysg. Byddai hyn yn agwedd allweddol ar ei harlwy cymunedol ac addysgol - gallu cysylltu defnyddwyr ag orielau ledled Cymru a thu hwnt.

**PERTHNASEDD I'R BOBLOGAETH LEOL**

Fel y nodir uchod, ym mis Gorffennaf 2021, cymeradwyodd y Cabinet Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MOU) i ddechrau Partneriaeth Cynhyrchu Diwylliannol Glanfa'r Iwerydd

gyda'r nod o weithio tuag at ddatblygu meysydd gweithio ar y cyd. Mae hyn yn cynnwys gweledigaeth a rennir a rhaglen waith i alinio strategaeth economaidd a chynlluniau datblygu'r sector creadigol yng Nghaerdydd i fanteisio i'r eithaf ar ddatblygu talent, addysg greadigol y celfyddydau mynegiannol ac i gefnogi cynhyrchu a pherfformio i hybu proffil diwylliannol rhyngwladol y ddinas ac i ysgogi twf cynhwysol yn y diwydiannau creadigol yng Nghaerdydd.

Mae'r dull hwn yn cynnwys sefydlu trefniadau ffurfiol gyda chymunedau lleol i sicrhau bod y datblygiad yn cysylltu â'r boblogaeth leol. Bydd hyn hefyd yn cynnwys cysylltu ag ysgolion Cymru, y sector addysg ehangach a hefyd cysylltu â darpariaeth bresennol fel Pafiliwn Ieuenctid Butetown sy'n canolbwyntio ar ymdrechion creadigol.

Yn ogystal, sicrhawyd cyllid hefyd drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin i gefnogi swyddog cyfathrebu ac ymgysylltu fydd yn gweithio gyda'r gymuned leol i helpu i lunio datblygiad Glanfa'r Iwerydd.

**Ein cynllun yw i'r Oriel Gyfoes Genedlaethol, oriel safle angori Cymru a'r rhwydwaith orielau ehangach weithredu fel tywysydd ar gyfer ysbrydoli ein cenedl a'n pobl ar gyfer pobl ifanc a phob person.** Gyda phartneriaid byddem yn datblygu'r cyfleoedd dysgu ac ymgysylltu mwyaf blaengar yn y mannau a ddisgrifir yn y cais hwn. Byddem yn darparu cyfleoedd arddangos i blant Cymru, gan ddatblygu cyfleoedd Artist Ifanc y Flwyddyn Cymru, a byddem yn gweithio'n agos gyda Chyngor Celfyddydau Cymru ac Ysgolion Cymru i ddatblygu rhaglenni ymgysylltu sylweddol.

**CENEDLAETHAU'R DYFODOL**

Mae'r cynnig a ddatblygwyd eisoes wedi'i seilio ar gyflawni cynllun sef:

**Y mwyaf cynaliadwy yn amgylcheddol:** Darparu lleoliad lle mae mynediad ar drafnidiaeth gyhoeddus yn golygu nad y car yw'r dull trafnidiaeth tybiedig, ac fel rhan o ddatblygiad cyffredinol lle mae ynni'n rhan allweddol o'r strategaeth ddatblygu. Gan mai trafnidiaeth yw lledaenwr pennaf carbon unrhyw leoliad neu ddigwyddiad, mae hyn yn hollbwysig.

**Y mwyaf hygyrch:** Wedi'i leoli ymhlith cymunedau mwyaf amrywiol Cymru, ond hefyd ar y safle â'r cyrhaeddiad poblogaeth mwyaf yng Nghymru. Bydd gan gysylltiadau trafnidiaeth fynediad heb risiau, a bydd y safle'n hygyrch i'r rhai ag anableddau corfforol.

**Cyrhaeddiad byd-eang:** Er bydd y safle'n darparu lle i bobl ledled Cymru fwynhau celf gyfoes, ei nod hefyd yw dod â'r byd i Gymru ac arddangos yr hyn sydd gan y genedl a'i phrifddinas i'w gynnig.

Mae ein tîm wedi datblygu'r cysyniad Cam 2 RIBA cyffrous hwn, y teimlwn mai dyma'r cartref y mae ein hartistiaid ei angen yng Nghymru, gan greu cyrchfan flaenllaw i hyrwyddo Cymru fel cenedl greadigol, gynaliadwy a blaengar. Edrychwn ymlaen at rannu delweddau'r cysyniad dylunio pan fo hynny'n briodol. Mae dyluniad y safle angori ar gyfer Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol, Cymru'n edrych fel petai'n perthyn i amlinelliad ein cenedl. Credwn yn

angerddol y gallwn gyflawni'r prosiect diwylliannol trawsnewidiol hwn, wedi ei rwydweithio i artistiaid a dinasyddion ledled Cymru a'r byd.

*Datblygwyd y prosiect hwn gan dîm Diwylliant, Prosiectau Mawr ac Adfywio Cyngor Caerdydd.*

Ymateb gan Sefydliad Cyfarthfa i'r ymchwiliad gan Bwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol Senedd Cymru ar bwnc Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol i Gymru.

Awst 2023

Sefydliad Cyfarthfa Foundation

Cyngor Bwrdeistref Sirol MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL County Borough Council

# Tabl y Cynnwys

1. Crynodeb ........ 2
2. Cyfarthfa - y status quo ........ 5
3. Y model arfaethedig — Rhwydwaith + Angor ........ 7
Cyflwyno'r briff ........ 8
Amserlenni ........ 8
4. Cyfarthfa — safle angor ........ 9
Lleoliad ........ 9
Y Castell ........ 9
Gofod ........ 10
Y Parc ........ 10
Cyfleusterau ........ 11
5. Y dimensiwn digidol ........ 12
6. Adfywio ac effaith economaidd ........ 13
7. Aliniad polisi ........ 14
8. Casgliad ........ 15
Atodiad A: Chwe esiampl o amgueddfeydd ym Mhrydain ac Ewrop (NB, ni ddylid cyhoeddi y delweddau hyn. Nid ydym yn berchen ar yr hawlfraint) ........ 16
Atodiad B: Sefydliad Cyfarthfa ........ 22
Atodiad C: Staff Sefydliad Cyfarthfa ........ 27

# 1. Crynodeb

1.1 Crëwyd Sefydliad Cyfarthfa - elusen gofrestredig - gyda'r bwriad o drawsnewid amgueddfa ac oriel leol boblogaidd yn sefydliad cenedlaethol sy'n gwbl deilwng o'i hanes, treftadaeth a chelf, ac ar raddfa ac ansawdd sy'n gweddu i'w harwyddocâd. O'r cychwyn cyntaf rydym ni wedi rhagweld integreiddiad dychmygus treftadaeth a chelf gyfoes mewn ffordd sy'n ymateb i draddodiad hir o arloesi a heriau aruthrol yr 21ain ganrif.

1.2 Mae sefydlu Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol i Gymru (NCAGW) wedi bod yn ddyhead hir-ddisgwyliedig o ddatblygiad parhaus sector celfyddydau gweledol y wlad yn ogystal â thystiolaeth o awydd y cyhoedd. Mae bywiogrwydd orielau ledled Cymru, llwyddiant artistiaid o Gymru yn Biennale Fenis ac ymateb y cyhoedd i arddangosfa ryngwladol Artes Mundi bob dwy flynedd wedi darparu tystiolaeth o botensial pellach yn eu ffyrdd gwahanol.

1.3 Mae'r Sefydliad yn falch o gyflwyno ei weledigaeth ar gyfer elfen ganolog angenrheidiol o'r cynnig hwn - safle angor i'w leoli yng Nghastell a Pharc Cyfarthfa ym Merthyr Tudful. Rydym ni'n gwneud hynny mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Rydym ni hefyd wedi cael cymorth yn hyn o beth gan arbenigwyr yn y maes - Cultural Associates Oxford — sydd wedi cwblhau dau adroddiad helaeth sydd wedi'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru.

1.4 Ein gweledigaeth ar gyfer safle angor ar gyfer y rhwydwaith newydd cyffrous hwn yw lle:

- i gyflwyno'r gorau o gelf gyfoes o Gymru ac o fannau eraill, boed hynny o fewn cyd-destun oriel neu mewn parc agored
- i gymryd golwg eang a chynhwysol ar gelf gyfoes
- i roi cyd-destun hanesyddol i gelf gyfoes lle bo hynny'n briodol
- i groesawu artistiaid sefydledig a rhai newydd
- i annog creu celf - trwy breswylfeydd artistiaid, cyd-gynhyrchu a chyfleoedd cyfranogol
- i ymgysylltu â chynulleidfaoedd mawr ac amrywiol, ar draws pob oedran, drwy weithgareddau, dysgu a digwyddiadau yn y gymuned.

1.5 Yn bwysig, rydym ni'n dymuno cyflawni'r dibenion hyn mewn partneriaeth greadigol gydag orielau ledled Cymru yn ogystal â'r Amgueddfa Genedlaethol a'r Llyfrgell Genedlaethol. Dylai fod yn bartneriaeth sy'n cydnabod nid yn unig werth cydweithio creadigol ond hefyd annibyniaeth yr orielau a'r sefydliadau hyn a'r angen yn aml i wasanaethu cynulleidfaoedd mewn gwahanol rannau o Gymru mewn ffyrdd gwahanol.

1.6 Rydym ni'n dadlau mai Castell a Pharc Cyfarthfa yw'r lleoliad gorau a naturiol ar gyfer safle angor NCAGW sydd gan y Rhaglen Lywodraethu mewn golwg, am y rhesymau canlynol:

- Byddai'n fuddsoddiad diwylliannol sylweddol ym Merthyr Tudful ac ardal Blaenau'r Cymoedd - ardal sy'n haeddu llawer mwy o fuddsoddiad yn ei seilwaith diwylliannol.

- Mae'n nodedig nad oes yr un o'r orielau eraill a ragwelir y byddant yn cymryd rhan wedi'u lleoli yn ardal Blaenau'r Cymoedd, er gwaethaf lle canolog ac eiconig y cymoedd hynny wrth greu celf Cymru a'n hunaniaeth genedlaethol.

- Byddai'n achub rhan hanfodol bwysig o'n hanes sydd dan fygythiad, gan roi bywyd newydd i Gastell a Pharc Cyfarthfa, pwrpas cenedlaethol ac agwedd ryngwladol.

- Byddai'n adeiladu ar gasgliad celf sy'n bodoli eisoes sy'n berthnasol ac o ansawdd uchel.

- Byddai'n galluogi Cyfarthfa i leoli ei hun yn ganolfan i feddwl arloesol, cynhyrchu creadigol a datblygiadau addysgol dyfeisgar.


- Byddai'n cynhyrchu cyflogaeth, gwerth cymdeithasol ac adnewyddu cymunedol mewn man lle mae angen amlwg.

- Byddai'n rhoi esiampl weithredol feiddgar o egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

- Mae Sefydliad Cyfarthfa eisoes yn bodoli — cyfrwng parod i bwrpas arbennig a grëwyd yn benodol i ymgymryd â her o'r natur a'r raddfa hon.

1.7 Mae'r posibilrwydd o safle angor i Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol i Gymru, ochr yn ochr ag amgueddfa gymhellol o'n hanes diwydiannol, yn dal y potensial ar gyfer synergeddau creadigol niferus a fydd yn darparu cyd-destun a pherthnasedd ar gyfer agweddau hanesyddol a chyfoes ei chenhadaeth. Dylai'r cysyllteiriau hyn fod yn destun cyffro i guraduron a'r cyhoedd fel ei gilydd.

1.8 Bydd yr amserlenni dylunio a datblygu angenrheidiol ar gyfer adnewyddu Cyfarthfa yn caniatáu digon o amser ar gyfer cynllunio trefniadau sefydliadol yn y ganolfan ac ar draws rhwydwaith yr oriel, yn ogystal â rhwng y ddau. Edrychwn ymlaen at weithio gyda phartneriaid a gyda'r tîm cynllunio prosiect a benodwyd yn ddiweddar i wneud hyn yn realiti y gall Cymru gyfan ymfalchio ynddo.



## 2. Cyfarthfa - y status quo

2.1 Castell Cyfarthfa oedd cartref y teulu Crawshay, meistri haearn enwog Merthyr. Gadawodd y teulu y castell ar ddiwedd y 19$^{eg}$ ganrif a'i adael i'r awdurdod lleol. Yna daeth yn amgueddfa ac yn ysgol - cartref Ysgol Uwchradd Cyfarthfa. Gadawodd yr ysgol yr adeilad ddeng mlynedd yn ôl, ers hynny mae 85% o'r adeilad rhestredig Gradd 1 hwn yn wag gyda'i gyflwr yn dirywio'n sylweddol.

2.2 Mae bellach yn gartref i oriel sy'n cynnwys casgliad sylweddol o fwy na 300 o weithiau gan, ymhlith eraill, William Armfield, Frank Brangwyn, Duncan Grant, Shani Rhys James, Alfred Janes, Heinz Koppel, Thomas Lawrence, Cedric Morris, George Murray, Winifred Nicholson, Ruskin Spear a Jack Butler Yeats, yn ogystal â chasgliad o weithiau o'r 19eg ganrif, gyda llawer ohonynt yn cofnodi gorffennol diwydiannol Merthyr.

2.3 Mae Castell Cyfarthfa a'i barc 160-erw yn eiddo i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ac ar hyn o bryd maen nhw'n cael eu rheoli gan Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr Tudful. Mae'r Cyngor, yr Ymddiriedolaeth Hamdden a Sefydliad Cyfarthfa wedi cytuno mewn egwyddor i drosglwyddo perchnogaeth a gweithrediad i'r Sefydliad yn y pen draw, yn amodol ar drafodaethau. Mae'r trafodaethau hynny'n parhau ar hyn o bryd.

2.4 Mae Sefydliad Cyfarthfa yn gwmni cyfyngedig drwy warant ac yn elusen gofrestredig. Mae ei Fwrdd yn cynnwys 14 o bobl sydd ag ystod eithriadol o brofiad sy'n berthnasol i brosiectau o'r maint hwn, yn ogystal ag ymgysylltiad dwfn â'r gymuned. Ar hyn o bryd mae ganddo staff o bedwar dan arweiniad y Prif Weithredwr, Anna Baker - pensaer a gwblhaodd brosiect treftadaeth arobryn a ariennir gan y Loteri yng Nghaerfaddon y llynedd.

2.5 Mae'r Sefydliad wedi cael ei ariannu gan grant cychwynnol o £1.25m gan Lywodraeth Cymru. Mae wedi derbyn £429k o gyllid drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU, ac mae hefyd wedi cael addewidion o gyllid gan rai sefydliadau elusennol mawr.

2.6 Cyn sefydlu'r Sefydliad, a chyda mewnbwn gan Gomisiwn Dylunio Cymru, darparodd y Cyngor £250,000 i gomisiynu uwchgynllun gan dîm o fri rhyngwladol dan arweiniad Ian Ritchie Architects. Cyflwynwyd hyn cyn ffurfio'r Sefydliad ei hun. Roedd hwn yn nodi cynllun 20 mlynedd ar gyfer datblygu'r parc gydag ystod eang o opsiynau a oedd yn cynnwys "integreiddio treftadaeth a chelf gyfoes mewn modd dychmygus."

2.7 Dywedodd: "Pe bai canolfan o'r fath yn ymwneud â gorffennol Merthyr yn unig, yna dim ond hanner y gwaith fyddai'n ei wneud. Er enghraifft, gan ddilyn esiampl hanes Merthyr o arloesi diwydiannol, gellid darparu oriel hefyd ar gyfer arddangosfeydd newidiol o arloesedd yn yr 21ain ganrif mewn celf a diwydiant a fyddai'n helpu i newid canfyddiadau o ardal Merthyr a Blaenau'r Cymoedd ac annog datblygiad economaidd yn enwedig yn y diwydiannau creadigol modern."



## 3. Y model arfaethedig — Rhwydwaith + Angor

3.1 Mae'r model dosbarthedig arfaethedig ar gyfer NCAGW yn cydnabod daearyddiaeth Cymru, y dosbarthiad eang presennol o orielau a'u hanes hir o wasanaethu eu cymunedau a'u hartistiaid. Mae'n fodel sy'n annog amrywiaeth ac yn dathlu ardal leol. Dylid ei werthfawrogi a'i wella. Fodd bynnag, os mai uchelgais y prosiect hwn yw dod â ffocws cwbl newydd i gelf gyfoes yng Nghymru, fel y bydd yn ei sefydlu'n fwy cadarn ym meddwl y cyhoedd, yn ogystal â sefydlu celf Cymreig yn rhyngwladol, mae angen sefydliad newydd gyda phresenoldeb corfforol digamsyniol. Rydyn ni'n credu mai hynny yw natur yr angor gofynnol. Gall Cyfarthfa fod yr angor hwnnw.

3.2 Dylai safle angor mawr - gyda diben cydweithredol yn ddwfn yn ei genhadaeth, a dull colegol wedi'i ymgorffori yn ei ymarfer - fod yn ased i'r rhwydwaith cyfan. Byddai'r cyfuniad arloesol o nodau creadigrwydd lluosog gyda gallu canolog effeithiol yn ffordd arall eto o osod creadigrwydd sefydliadol Cymru ar lwyfan byd-eang. Creu gallu canolog newydd yw'r *sine qua non.*

3.3 Bydd y lle rydym ni'n rhagweld fydd ar gael yng Nghyfarthfa yn sylweddol, gan alluogi ei ddatblygu yn amgueddfa ac oriel bwysig. Mae gan ei barc 160-erw hefyd y potensial i ddatblygu yn barc cerfluniau. Ond yn hytrach na chystadlu ag eco-system yr orielau bresennol, byddai angor NCAGW yng Nghyfarthfa yn dymuno cefnogi'r rhwydwaith mewn sawl ffordd, gan anelu at fudd i'r holl sefydliadau sy'n cymryd rhan, yn ogystal a'u cynulleidfaoedd.

3.4 Gallai hyn fod trwy'r canlynol:

- Cynllunio ar y cyd ar gyfer arddangosfeydd aml-leoliad
- Codi arian ar y cyd, gan ganiatáu mynediad i gronfeydd mwy
- Cefnogaeth ymarferol gyda chludiant a gosod
- Darparu lle storio
- Cymorth ar gyfer marchnata a chyfathrebu
- Darparu canolfan ddysgu ac ymchwil yn ganolbwynt corfforol a rhithwir ar gyfer y rhwydwaith
- Arddangos gwaith yr orielau unigol neu grwpiau o orielau yn genedlaethol.

3.5 Mae angen trafod yr opsiynau hyn ar draws y rhwydwaith, yn ogystal â gyda'r tîm cynllunio canolog sydd newydd ei benodi, er mwyn cyrraedd y strwythurau cydweithredol mwyaf effeithiol tra hefyd yn cadw gallu'r orielau unigol i ddilyn eu hagendâu penodol ac annerch eu cynulleidfaoedd eu hunain. Yr amcan yw creu seilwaith cefnogol a fydd yn caniatáu i sector y celfyddydau gweledol yng Nghymru ddatblygu ei broffil a'i gynulleidfa.

## Cyflwyno'r briff

3.6 Roedd y briff ar gyfer NCAGW yn rhagweld y byddai hyn yn fenter neu bartneriaeth ar y cyd rhwng yr orielau, Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru fel ceidwaid y casgliad cenedlaethol. Bydd angen diffinio natur y berthynas hon yn ofalus er mwyn manteisio i'r eithaf ar ddefnydd y cyhoedd o'r casgliadau, tra bod y deiliaid casgliadau cenedlaethol yn sicr bod eu cyfrifoldebau gwarchodol dros ddiogelu'r casgliadau yn cael eu cynnal. Bydd hefyd yn bwysig bod gan yr orielau yn y rhwydwaith dosbarthedig lais clir wrth benderfynu pa weithiau sy'n cael eu harddangos ym mha leoliad.

3.7 Mae sawl opsiwn ar gyfer ffurfweddu'r trefniadau hyn, ond byddem yn dadlau dros greu grŵp comisiynu NCAGW ar y cyd sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r safle angor, yr orielau sy'n cymryd rhan, Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Byddai'r ysgrifenyddiaeth yn cael ei darparu gan safle'r angor. Credwn y byddai hyn yn cadw gorbenion i'r lleiafswm tra'n creu strwythur colegaidd effeithiol. Gallai atebolrwydd y safle angor fod drwy Gyngor Celfyddydau Cymru neu'n uniongyrchol i Lywodraeth Cymru.

## Amserlenni

3.8 Gellir dadlau fod y blaguryn ar gyfer y system arfaethedig wedi bod gyda ni ers blynyddoedd lawer. Yn fwy diweddar, o dan nawdd Amgueddfa Cymru, mae wedi cymryd cam arall ymlaen gyda datblygiad adnoddau ar-lein sydd wedi sicrhau bod y casgliad cenedlaethol ar gael i bawb. Nid oes angen arafu dim ar y datblygiadau cynyddrannol hyn tra bod trefniadau newydd yn cael eu cytuno.

3.9 Er na fydd datblygiad ffisegol orielau Cyfarthfa yn gyflawn ac yn agored i'r cyhoedd am 5-7 mlynedd, mae'n debygol y bydd y Sefydliad am benodi staff curadurol cyn hyn er mwyn cynllunio'r cynnwys. Felly, ni fyddai unrhyw beth i atal datblygiad strwythurau

comisiynu NCAGW y cytunwyd arnynt hyd yn oed cyn i'r orielau newydd yng Nghyfarthfa fod yn barod. Gellid defnyddio cyfnod interim yn adeiladol i arbrofi ac i adeiladu cynulleidfaoedd wrth ddisgwyl agoriad Cyfarthfa.

# 4. Cyfarthfa — safle angor

## Lleoliad

4.1 Mae lleoliad Cyfarthfa yn wych. Mae'n eistedd ar gyffordd dwy brif ffordd - yr A470 a ffordd Blaenau'r Cymoedd yr A465 - sy'n darparu mynediad cyflym o bob pwynt o'r cwmpawd, gan gynnwys Caerdydd, Casnewydd a gorllewin Lloegr i'r de, dinas-ranbarth Abertawe i'r Gorllewin a Chanolbarth Lloegr i'r dwyrain. Yn y flwyddyn nesaf bydd Metro De Cymru yn cynyddu cyflymder ac amlder trenau o Gaerdydd a chymunedau eraill yn y cymoedd, a bydd deuoli ffordd Blaenau'r Cymoedd bron wedi'i gwblhau.

4.2 Gall hefyd fanteisio'n llawn ar ei agosrwydd at Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, y dywedir ei fod yn denu 4 miliwn o ymwelwyr y flwyddyn.

## Y Castell

4.3 Mae Cyfarthfa mewn lle perffaith i gyflawni ei huchelgais celf. Mae'n cwmpasu castell hanesyddol poblogaidd a pharc mawr o'i amgylch sy'n berffaith ar gyfer arddangos cerfluniau. Mae ei orielau presennol, yn ystafelloedd teuluol addurnedig y castell, yn gartref i gasgliad gwych o waith gan artistiaid arwyddocaol. Mae'n drysorfa nad yw'n cael ei defnyddio ddigon. Mae gan yr adeilad hefyd nifer o hen ystafelloedd dosbarth ysgol cymesur, nad ydynt bellach yn anffodus yn cael eu defnyddio, ond yn barod i'w datblygu yn orielau hardd pellach, mannau dysgu, stiwdios a gweithdai.

4.4 Yn wreiddiol roedd y Castell yn annedd preifat i deulu Crawshay, ac erbyn hyn mae'n eiddo i bobl Merthyr sydd yn teimlo balchder ac anwyldeb mawr tuag ato. Wedi dweud hynny, nid yw wedi cael y sylw a'r buddsoddiad mae'n ei haeddu ac mae mewn cyflwr difrifol o ddadfeilio.

4.5 Mae potensial hefyd i greu mannau arddangos mwy, mwy dramatig o fewn a thu hwnt i ôl troed presennol y castell trwy ad-drefnu ac ychwanegiadau sensitif. Mae'r cynllun a ddangosir yn yr adroddiad hwn yn cynnwys adeiladau ychwanegol, a gynlluniwyd fel y gall Cyfarthfa fodloni gofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer gofod i'r safle angor arfaethedig ar gyfer yr Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol. Bwriad hyn yw dangos potensial Cyfarthfa yn unig.

4.6 Wrth ymdrin â chelf gyfoes, bydd ein gwaith yn cael ei ysbrydoli gan anheddiad addysgol Dowlais ym 1928, y datblygwyd ei waith ymhellach tua diwedd yr Ail Ryfel Byd gan artistiaid megis Esther Grainger a Cedric Morris. Mae'r syniad o gymuned greadigol â meddwl cymdeithasol wedi'i drwytho yng ngorffennol Merthyr Tudful.

Mae Atodiad A yn cynnwys ffotograffau o nifer o orielau Ewropeaidd ardderchog sy'n cyfuno adeiladau hen a newydd yn effeithiol iawn. *(NB, ni ddylid cyhoeddi y delweddau hyn. Nid ydym yn berchen ar yr hawlfraint.)*

Gofod

4.7 Mae briff Llywodraeth Cymru ar gyfer safle angor yn awgrymu bod 12,000 metr sgwâr neu fwy o le yn ddymunol, gyda 7,500 metr sgwâr yn cael ei ystyried yn hanfodol. O fewn y ffigurau hyn, awgrymir y byddai dwy ran o dair o'r holl le hwn yn lle ar gyfer oriel — h.y. rhwng 5,000 ac 8,000 metr sgwâr. Mae ein hymgynghorwyr yn amcangyfrif y byddai tua 6,200 metr sgwâr presennol y castell yn darparu tua 3,000 metr sgwâr o le arddangos, gyda'r gweddill yn cael ei ddarparu gan orielau newydd — orielau cyfoes hyblyg ac wedi'u teilwra a fyddai'n gweddu i'r cynnwys ac yn ategu'r castell presennol.

4.8 At ddibenion cymharu rydym ni'n nodi ôl troed - ôl troed, nid arwynebedd llawr - dau gymharydd ochr yn ochr â Chyfarthfa:

| | |
|---|---|
| Amgueddfa Genedlaethol, Caerdydd | 7,700 m2 |
| Castell Cyfarthfa | 4,100 m2 |
| Oriel Gelf Fodern Genedlaethol yr Alban | 1,820 m2 |

4.9 Datblygodd ein tîm ymgynghorol, a oedd yn cynnwys curaduron nodedig a phrofiadol ac ymgynghorwyr amgueddfa, strategaeth y gellir ei graddio y gellir ei haddasu mewn ymateb i anghenion partneriaid NCAGW. Mae'r strategaeth yn cynnig cyfres o 'neuaddau' mawr y gellir eu cysylltu neu eu gwahanu yn unol ag anghenion yr amgueddfa a'i rhaglen arddangosfeydd dros dro.

Y Parc

4.10 Mae Parc Cyfarthfa eisoes yn barc 160-erw mawr, ond ein cynllun yw ei ymestyn ar draws y dyffryn i ffwrneisi Cyfarthfa, sy'n 263 mlwydd oed, ar ochr orllewinol afonydd Taf a Thaf Fechan. Byddai hyn yn creu parc o 240 erw, gan ddod yn un o barciau mawr Cymru, ochr yn ochr â Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

4.11 Ein huchelgais ar gyfer y dirwedd yw y dylai'r newid fod yn drawsnewidiol, gan greu cyrchfan hygyrch, ysbrydoledig, creadigol, addysgol, bioamrywiol a chynaliadwy, gan ymgorffori ymdeimlad dwys o naratif cymunedol a chymdeithasol.

4.12 Bydd yr ased presennol hwn, gyda'i botensial ar gyfer ehangu'n ddramatig, yn gwella cysyniad NCAGW yn fawr, gan ddarparu cefndir gwych ar gyfer cerflunio ac ymyriadau amgylcheddol eraill. Mae'r Sefydliad yn gobeithio comisiynu artistiaid a all hefyd ennyn diddordeb pobl yn y broses o greu cerflunwaith, yn ogystal â chynorthwyo artistiaid newydd i ddatblygu eu sgiliau.

4.13 Mae Parc Cyfarthfa yn cynnig 'llwyfan gwyrdd' ar gyfer arddangosfeydd celf awyr agored mewn amrywiaeth o gymeriadau tirwedd a chynefinoedd amrywiol gyda golygfeydd godidog a pherlau naturiol cudd i ysbrydoli a swyno'r holl ymwelwyr, gan gynnwys pobl na fyddent fel arfer yn ymgysylltu â chelf, fel cerddwyr cŵn a rhedwyr

neu deuluoedd allan am ychydig o awyr iach. Bydd arddangosfeydd newidiol o gerflunwaith o'r fath yn denu sylw cyhoeddus a chyfryngau cymdeithasol yn rheolaidd ac yn annog ymweliadau dro ar ôl tro. Mae potensial mawr yma hefyd ar gyfer gwaith sy'n cynnwys cyfranogiad cymunedol torfol wrth eu creu.

4.14 Ymhellach, mae cyfle i ddefnyddio'r parc ar gyfer digwyddiadau awyr agored a fydd yn annog presenoldeb drwy gydol y flwyddyn, er enghraifft gosodiadau golau yn y gaeaf, theatr awyr agored, sinema awyr agored, cyngherddau a gwyliau bach. Bydd y model cymysg hwn o gelf a diwylliant poblogaidd yn golygu y bydd gweithiau celf yn dod yn fyw mewn cyd-destunau newydd a chyffrous ac yn caniatáu cynhyrchu mwy o refeniw.

## Cyfleusterau

4.15. Dylai'r ystod o gyfleusterau sydd ar gael ar y safle angor fod yn addas i ganiatáu ac annog y presenoldeb mwyaf posibl a’r ymgysylltu llawnaf, tra hefyd yn meithrin ymchwil ac ymarfer artistig. Byddai'r cyfleusterau'n cynnwys:

- Gofod orielau cyfoes
- Ystafelloedd cyhoeddus hanesyddol
- Orielau plant
- Parc cerfluniau ynghyd â chelf awyr agored a rhyngweithiol
- Arddangosfeydd digidol a dehongli
- Canolfan dysgu ac ymchwil
- Lle i artistiaid preswyl a chymrodoriaethau ymweliadol
- Stiwdios a gweithdai
- Siop, caffi a cheginau
- Lle ar gyfer digwyddiadau



# 5. Y dimensiwn digidol

5.1. Ni all unrhyw sefydliad diwylliannol nac addysgol yn yr 21ain ganrif fforddio esgeuluso dimensiwn digidol o’i weithgareddau. Bydd nid yn unig yn ddimensiwn o'i hygyrchedd ond hefyd o'i greadigrwydd. Rhaid i hyn fod yn dasg â blaenoriaeth nid yn unig i'r NCGAW yng Nghyfarthfa, ond hefyd i'r amgueddfa. Gallant gyfoethogi y naill a’r llall.

5.2 Mae gan Gyfarthfa gasgliad o gelf gyfoes sylweddol eisoes sydd wedi'i ddigideiddio ac sydd ar gael i bobl ei chwilio a'i weld ar blatfform Art UK. Felly, bydd safle angor NCAGW yn gallu adeiladu ar arferion gweithio cynhwysol presennol Cyfarthfa i sicrhau bod mynediad i'w gasgliad yn cael ei ddemocrateiddio, gan alluogi cynulleidfaoedd i ymgysylltu'n ddyfnach â'r casgliad cenedlaethol o gelf gyfoes drwy ddulliau digidol o unrhyw le yn y byd.

5.3 Yn ogystal, bydd yn defnyddio enghraifft arfer gorau Casgliad y Werin Cymru, gan greu profiad digidol a allai ymestyn i hyfforddiant i grwpiau a sefydliadau cymunedol lleol ar ddigideiddio cynnwys, ac a allai gofnodi straeon pobl sy'n cysylltu â'r casgliadau celf.

5.4 O fewn yr amgueddfa, byddem hefyd yn bwriadu gwneud y defnydd llawnaf o dechnegau digidol o'r radd flaenaf wrth adrodd straeon Cyfarthfa.

## 6. Adfywio ac effaith economaidd

6.1 Mae Cyfarthfa yn cynnig cyfle adfywio sylweddol. Trwy ddatblygu sefydliad sydd wedi'i wreiddio yn y gymuned ac sydd eto'n cyflawni safle mewn cynghrair llawer uwch o atyniadau i dwristiaid, bydd yn arwain adfywiad cymdeithasol ac economaidd ym Merthyr Tudful a'r cyffiniau ac yn cefnogi rhaglen atyniadol sy'n codi dyheadau, yn gwella iechyd a lles, yn cefnogi datblygiad sgiliau ac yn creu cyflogaeth.

6.2 Mae'r angen yn sylweddol. Roedd astudiaeth a gwblhawyd ychydig cyn cyfnod clo Covid yn gosod Merthyr Tudful — er ei holl botensial — ar ben anghywir tablau cynghreiriau economaidd y DU:

- 375 o blith 379 o ardaloedd ym mynegai natur gystadleuol y DU
- 3ydd isaf yng Nghymru
- 2il isaf ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd
- Gwerth Ychwanegol Gros y pen o £15,420 — 17eg ymysg y 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

6.3 Mae ymchwil arall wedi dangos bod 8 o'r 36 Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) yn y fwrdeistref ymhlith y 30% mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Er gwaethaf mesurau anffafriol o dlodi ac afiachusrwydd, roedd 85% o'r rhai a ymatebodd i'n harolwg yn ymfalchïo mewn byw a gweithio ym Merthyr Tudful, gan ddangos bod awydd enfawr i bobl deimlo'n rhan o gymuned leol a rhannu ymdeimlad o le.

6.4 Mae'n rhesymol tybio y bydd lleoli atyniad mawr fel NCAGW yng Nghyfarthfa, gyda marchnata priodol a gwelliannau ffyrdd a rheilffyrdd sydd ar fin digwydd, yn cynyddu nifer yr ymwelwyr ac yn annog datblygiad pellach i westai newydd, gan roi anogaeth bellach eto i dwristiaeth yn yr ardal. Bydd rhagolygon manwl gywir yn dibynnu ar raddfa ac amseriad y buddsoddiad, er y byddem yn disgwyl i safle angor NCAGW, wedi'i gwblhau, ddenu dim llai na 300,000 o ymwelwyr y flwyddyn yn y blynyddoedd cynnar, gan godi i 500,000 o fewn 10 mlynedd.

6.5 Gofynnwyd i ni ystyried a yw methiant Canolfan y Celfyddydau Gweledol (CVA) yng Nghaerdydd fwy nag 20 mlynedd yn ôl yn cynnig unrhyw wersi ar gyfer yr NCAGW arfaethedig. Yn ein barn ni, mae'r NCAGW arfaethedig yn gynnig gwahanol iawn. Menter annibynnol oedd y CVA, tra byddai safle angor ar gyfer NCAGW yng Nghyfarthfa, yn dechrau gyda'r manteision canlynol

i) yr ymwelwyr sylweddol presennol ym Mharc Cyfarthfa,
ii) rhaglen addysg/ysgolion datblygedig Cyfarthfa,
iii) cyd-leoli amgueddfa ac oriel gelf gyfoes a fydd yn sicrhau treiddiad ehangach i'r farchnad
iv) cefnogi cadwyn o orielau sydd wedi hen ennill eu plwyf ledled Cymru a
v) chryfder casgliadau Amgueddfa Cymru a'r Llyfrgell Genedlaethol.

6.6 Argymhellodd yr Astudiaeth Effaith Economaidd a baratowyd yn ystod ymarfer prif gynllun Cyfarthfa y dylid mapio newid economaidd-gymdeithasol — ei fonitro a'i werthuso - ddod yn ganolbwynt i Gynllun Cyfarthfa. Mae hwn yn ddull yr ydym ni am ei archwilio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

## 7. Aliniad polisi

7.1 Ni all adfywio yn yr 21ain ganrif gyfyngu ei hun i nodau meintiol syml. Rydym ni wedi pwysleisio o'r cychwyn ein dymuniad i alinio ein gwaith ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mewn gwirionedd, rydym ni'n dymuno ymgorffori pob un o'i dimensiynau o fewn ein dibenion: iechyd, cydraddoldeb, cymunedau cydlynol, diwylliant, yr iaith Gymraeg a chyfrifoldeb byd-eang.

7.2 Mae'n werth rhoi sylwadau ar yr olaf o'r rhain. Ym mhob un o'r dimensiynau uchod, byddwn yn canolbwyntio'n bennaf ar fynd i'r afael â phryderon cymunedau yng Nghymru, ond wrth fynd i'r afael â'r dimensiwn byd-eang byddwn yn gwneud ymdrech ar y cyd i gysylltu â sefydliadau tebyg yn y DU a thu hwnt i'n glannau.

7.3 Fel gyda chelf gyfoes — fel y gwelwch yng nghynllun Artes Mundi - ni allwn fod yn gyfrifol yn fyd-eang oni bai ein bod yn agored i ddylanwadau o bedwar ban byd yn ein gwaith. Felly, byddwn yn anelu at ddatblygu ein cysylltiadau rhyngwladol, gan greu partneriaethau gydag orielau ar draws y byd, a gwahodd pobl greadigol a meddylwyr rhyngwladol i dreulio amser yma. Ein nod yw bod yn gartref i gynhyrchu arloesol a syniadau sy'n procio'r meddwl.



## 8. Casgliad

8.1 Rydym ni'n credu ei bod yn hen bryd creu Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol i Gymru. Byddai'n llenwi bwlch yn nhirwedd ddiwylliannol Cymru ac yn cynnig cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu lleol a rhyngwladol, er budd artistiaid a'r cyhoedd fel ei gilydd.

8.2 Byddai dynodi Cyfarthfa yn safle angor ar gyfer NCAGW yn sicrhau creu tîm pwrpasol, mewn gofod a lleoliad teilwng, gan weithio mewn partneriaeth ag orielau ledled Cymru, ac yn canolbwyntio ar ddiddordeb cyffredin. Maint y presenoldeb hwn — yn rymus amlwg i'r gynulleidfa, yn gredadwy i artistiaid, curaduron a'r byd academaidd fel ei gilydd, ac yn weladwy i'r byd — a fydd yn rhoi i'n celf gyfoes momentwm ffres, proffil uwch a lle diogel yn ffurfafen ddiwylliannol Cymru.

# Atodiad A: Chwe esiampl o amgueddfeydd ym Mhrydain ac Ewrop (NB, ni ddylid cyhoeddi y delweddau hyn. Nid ydym yn berchen ar yr hawlfraint)

**Chwe enghraifft o ddatblygu amgueddfeydd hŷn drwy ailfodelu, ychwanegiadau newydd a thechnegau arddangos newydd**

Gall rhai ond nid pob un o'r datblygiadau a restrir isod fod ar raddfa wahanol i brosiect Cyfarthfa, ond maen nhw'n ymgorffori egwyddorion a all fod yn dda iddo.

**a. The Whitworth, Manceinion**

Mae'r amgueddfa hon yn ymroddedig i'r cysyniad o'r "Amgueddfa Ddefnyddiol sy'n hyrwyddo celf fel offeryn ar gyfer effeithio ar y byd o'n cwmpas". Mae'r ffryntiad brics coch yn cael ei ategu gan orielau newydd sbon yn y cefn.








**b. The Kunstmuseum, Castell Moritzburg, Halle, Yr Almaen**

Crëwyd yr amgueddfa hon trwy addasu preswylfa archesgob, sy'n dyddio'n ôl i'r Oesoedd Canol, yn amgueddfa gelf.






**c. Rijksmuseum, Amsterdam**

Adeiladwyd y Rijksmuseum ym 1885. Cwblhawyd y gwaith o'i adfer a'i adnewyddu yn 2012 yn seiliedig ar ddyluniad gan benseiri Sbaenaidd Antonio Cruz ac Antonio Ortiz.





**ch. The Depot, Rotterdam**

Wedi'i leoli mewn parc, dyma'r cyfleuster storio celf cyhoeddus cyntaf yn y byd. Gall y cyhoedd grwydro trwy chwe llawr o weithiau celf, wedi'u tywys gan ap. Gallant hefyd wylio gweithwyr celf proffesiynol wrth eu gwaith.





**d. MAS, Museum an der Strom, Antwerp**

Mae'r MAS yn Antwerp yn amgueddfa arloesol, sy'n nodedig am ei systemau storio hygyrch i'r cyhoedd a'i hymrwymiad i hysbysu'r cyhoedd gan ddefnyddio cyfryngau newydd a chyflwyniadau trochi.






**f. Van Abbemuseum, Eindhoven, Yr Iseldiroedd**

Amgueddfa flaengar sy’n cael ei hystyried yn un o’r prif canolfannau sy’n ailfeddwl am ymgysylltu â'r cyhoedd, gyda rhaglenni arbennig yn defnyddio amrywiaeth o offer amlsynhwyraidd i'w defnyddio gan ymwelwyr dall a rhannol ddall a'r byddar a'r trwm eu clyw, yn ogystal â phobl sy'n dioddef o Alzheimers ac affasia. Mae hefyd yn cynnal rhaglenni grwpiau sy'n ceisio cysylltu materion cyfoes y dydd gyda gwrthrychau celf. Isod mae côr arwyddo o'r Iseldiroedd yn perfformio gyda chôr yr amgueddfa.







## Atodiad B: Sefydliad Cyfarthfa

Mae Sefydliad Cyfarthfa yn elusen gofrestredig ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant.
Ei ymddiriedolwyr yw:

**Dr Carol Bell**

Mae Carol Bell, sy'n wreiddiol o Felindre, Abertawe, yn ddiwydiannwr, yn ariannwr ac yn ymddiriedolwr elusen profiadol.

Mae'n aelod o fwrdd Banc Datblygu Cymru, yn aelod o gyngor Research England, yn Is-lywydd Amgueddfa Genedlaethol Cymru, yn Is-gadeirydd Canolfan Mileniwm Cymru ac yn aelod benywaidd cyntaf o fwrdd Cymdeithas Bêl-droed Cymru. Ar hyn o bryd mae Carol yn gwasanaethu ar dri bwrdd cwmni cyhoeddus: Bonheur (ynni adnewyddadwy Norwyaidd), Tharisa (glöwr platinwm yn Ne Affrica) ac Ymddiriedolaeth Incwm Ynni ac Adnoddau BlackRock.

Yn 2019, hi oedd un o sylfaenwyr Chapter Zero, rhan o Fenter Llywodraethu Hinsawdd Fforwm Economaidd y Byd, sy'n helpu cyfarwyddwyr anweithredol i integreiddio risg hinsawdd i gynlluniau strategaeth a buddsoddi. Mae ei diddordebau academaidd, yn UCL, yn cynnwys datblygu mwyndoddi metel a masnachu mewn metelau yn y cyfnod cynhanes. Mae'n cadeirio'r Ysgol Brydeinig yn Athen ac yn Drysorydd y Sefydliad Astudiaethau Archaeo-metelegol. Mae hi'n byw yn Llundain a Chaerdydd.

**Geraint Talfan Davies (Cadeirydd)**

Mae Geraint Talfan Davies yn awdur a darlledwr sydd wedi bod yn ymwneud ers amser maith â pholisi cyhoeddus a'r celfyddydau yng Nghymru. Ef yw ysgogydd y prosiect presennol i ddatblygu Castell a Pharc Cyfarthfa ym Merthyr Tudful. Mae ei yrfa wedi rhychwantu papurau newydd a darlledu yn ITV a'r BBC. Yn gyn-Reolwr BBC Cymru ac yn gyn-Gadeirydd Opera Cenedlaethol Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, ac Ymddiriedolaeth Celfyddydau Bae Caerdydd, mae hefyd yn gyd-sylfaenydd y Sefydliad Materion Cymreig. Mae'n gyfarwyddwr anweithredol Severn Screen Ltd. ac yn Gymrawd Anrhydeddus o Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain.

**Rowland Davies (Is-Gadeirydd)**

Mae Rowland Davies yn gyfreithiwr ac yn gyn-bennaeth practis eiddo tiriog Geldards LLP lle bu'n arbenigo mewn prosiectau hirdymor mawr ar gyfer y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Yn Geldards, arweiniodd y tîm a gasglodd y tir ar gyfer Stadiwm y Mileniwm, ac mae wedi gweithredu ar nifer o ddatblygiadau ym Mae Caerdydd. Bu hefyd yn cynrychioli'r awdurdod lleol yn natblygiad Pentref Trefol Coed Darcy yn Abertawe yn ogystal â chaffael a datblygu MoD Sain Tathan. Mae bellach yn gweithio fel ymgynghorydd i Geldards yn goruchwylio datblygiad Plasdŵr Garden City ac mae hefyd yn Bennaeth Tir Strategol ar gyfer Ystâd Marcol.

Mae Rowland yn gyn-Ymddiriedolwr hosbis plant Tŷ Hafan a Gwobr Gelf Ryngwladol Artes Mundi, ac ar hyn o bryd yn Is-Gadeirydd Cymdeithas Celf Gyfoes Cymru, yn Ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Lles Rhanbarthol Gleision Caerdydd, ac yn Ymddiriedolwr Cronfa Gymunedol Plasdŵr.

**Geoff Hunt**

Geoff Hunt yw Prif Swyddog Gweithredu Arup yn y DU - ymgynghoriaeth amlddisgyblaethol ym maes peirianneg, cynllunio a rheoli - ac yn y rôl hon mae ganddo gyfrifoldeb gweithredol llawn dros 6,000 o staff mewn chwe gwlad. Fel cyfarwyddwr corfforaethol yn y sectorau preifat ac elusennol mae ganddo ddiddordeb brwd mewn cynllunio busnes a llywodraethu ar lefel sefydliadol a phrosiectau. Mae'n beiriannydd sifil a strwythurol siartredig ac mae wedi treulio ei yrfa mewn peirianneg sifil a strwythurol fel contractwr, dylunydd ac arweinydd busnes. Mae ganddo ddiddordeb mewn adeiladau hanesyddol a pheirianneg sifil. Graddiodd Geoff o Brifysgol Abertawe ac mae'n byw ym Mhorthcawl. Mae'n aelod blaenorol o fwrdd a Chadeirydd Groundwork Wales.

**Syr Simon Jenkins**

Mae Syr Simon Jenkins yn newyddiadurwr, awdur a darlledwr ac mae wedi gwasanaethu fel Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a chyn hynny fel Dirprwy Gadeirydd English Heritage. Bu'n olygydd gwleidyddol The Economist am bum mlynedd, ac aeth ymlaen i fod yn olygydd The Times a'r Evening Standard. Mae bellach yn ysgrifennu ddwywaith yr wythnos i'r Guardian ac yn rheolaidd i'r Evening Standard.

Bu'n aelod o fwrdd British Rail, London Transport, Faber and Faber ac ymddiriedolaeth lyfrau Pevsner, ac yn Ymddiriedolwr Comisiwn y Mileniwm, Amgueddfa Llundain, Somerset House, Canolfan South Bank, SAVE (Gwarchod Treftadaeth prydain), y Thirties Society, a chasgliad darluniau Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain.

Mae wedi ysgrifennu llyfrau ar eglwysi, tai, Llundain a phensaernïaeth Cymru, yn ogystal ag ar wleidyddiaeth a Hanes Byr Lloegr. Mae ei lyfr nesaf ar bensaernïaeth gorsafoedd. Cafodd ei urddo'n farchog yn 2004 ac mae'n gymrawd Cymdeithas yr Hynafiaethwyr a'r Gymdeithas Lenyddiaeth Frenhinol. Mae'n byw yn Llundain a Chymru.

**Ewan Jones**

Mae Ewan yn bensaer Cymreig, wedi'i eni yng Nghasnewydd a'i fagu ym Mhorthcawl, lle mae llawer o'i deulu'n dal i fyw. Mae'n Bartner yn Grimshaw, practis pensaernïol rhyngwladol gyda stiwdios yn Ewrop, Awstralia ac UDA, a dylunwyr Prosiect Eden yng Nghernyw.

Gan weithio ar brosiectau cymhleth, yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, mae Ewan yn ddylunydd a chyfarwyddwr profiadol. Mae ei bensaernïaeth yn integreiddio peirianneg ac adeiladu yn ofalus, a’r cyfan yn cyfrannu at lwyddiant y naill a’r llall. Gan arwain timau sydd â dawn i roi sylw creadigol i fanylion, y canlyniadau yw strwythurau nodedig, arobryn ar draws ystod o raddfeydd a sectorau.

Mae Ewan wedi gweithio gyda Chomisiwn Dylunio Cymru ers 2005, gan gynnwys tymor o ddeng mlynedd fel aelod bwrdd. Mae'n parhau i gadeirio adolygiadau dylunio ar gyfer y Comisiwn ac yn cynorthwyo gyda chyngor i gleientiaid a'r llywodraeth.

**Hanif Kara**

Yr Athro Hanif Kara yw Cyd-sylfaenydd a Chyfarwyddwr Dylunio AKT II, cwmni peirianneg strwythurol a sifil a arweinir gan ddylunio yn Llundain. Gyda'i arweinydd creadigol, mae'r practis yn gysylltiedig â llawer o brosiectau adeiladu arloesol o wahanol faint, gan ennill dros 350 o wobrau dylunio, gan gynnwys Gwobr Stirling RIBA ar dri achlysur, yn ogystal â Gwobr Lubetkin RIBA ar gyfer Pafiliwn y DU yn Shanghai Expo yn 2010.

Mae Hanif wedi ennill statws rhyngwladol yn yr amgylchedd adeiledig, trwy ymarfer, ymchwil arloesol ac addysg ym maes dylunio rhyngddisgyblaethol. Mae angerdd diflino am ddull 'wedi'i arwain gan ddylunio' wedi caniatáu iddo weithio ar nifer o brosiectau enghreifftiol ac arloesol sydd ar flaen y gad mewn sawl her mae’r amgylchedd adeiledig wedi’u hwynebu yn ystod y ddau ddegawd diwethaf, gan gynnwys yr argyfwng hinsawdd.

Mae hefyd yn Athro mewn Ymarfer Technoleg Bensaernïol yn Ysgol Dylunio Graddedigion Harvard ac yn gynghorydd i Rwydwaith Datblygu Aga Khan. Mae hefyd yn aelod o Grŵp Dylunio Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Llywodraeth y DU.

**Helen Protheroe**

Mae Helen Protheroe yn Gyfarwyddwr Gweithredol Partneriaethau Byd-eang a Dyngarwch yn Sefydliad Allen yn Seattle ac yn aelod o Allen’s C Suite. Mae ei ffocws ar adeiladu cymuned fyd-eang Allen Institute ac ymestyn ei heffaith o ran deall bywyd a thrawsnewid iechyd pobl. Cyn y penodiad hwn roedd wedi bod yn Gyfarwyddwr Datblygu a Chysylltiadau Cyn-fyfyrwyr yn y Coleg Celf Brenhinol ac yn aelod o dîm arweinyddiaeth y coleg. Yn enedigol o Ferthyr Tudful, mae Helen hefyd wedi ymgymryd â rolau gweithredol ar gyfer Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, LAMDA, Canolfan Mileniwm Cymru, Cwpan y Byd Digartref (Cymru), y Tŷ Opera Brenhinol a'r Amgueddfa Ddylunio. Mae'n aelod o fwrdd (RCA USA) ac o Sefydliad Aspen y DU.

**Y Cynghorydd Lisa Mytton**

Mae Lisa Mytton yn gyn-Arweinydd Cyngor Merthyr Tudful ac yn gyn-Aelod Cabinet dros Ddysgu. Hi yw aelod etholedig ward y Faenor ers 2008. Yn 2012-13 hi oedd Maer ieuengaf erioed Merthyr Tudful. Mae wedi gweithio ers dros 20 mlynedd mewn addysg ôl-16, gan ddelio’n bennaf â phrentisiaethau, ac yn fwy diweddar fel Arolygydd Cymheiriaid i Estyn. Mae’n llywodraethwr ar Ysgol Gynradd Parc Cyfarthfa ac mae hefyd wedi cynrychioli Merthyr Tudful ar Gyd-Bwyllgor Addysg Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

**Dr. Marion Loeffler**

Mae Marion Loeffler yn hanesydd a darlledwr ac yn Ddarllenydd Hanes Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd sy'n arbenigo yn hanes diwydiannol a diwylliannol y Gymru fodern yn ei chyd-

destunau Ewropeaidd, ymerodraethol a byd-eang. Mae hi hefyd yn aelod o Bwyllgor Archif Menywod Cymru ac yn Olygydd Cynorthwyol y Bywgraffiadur Cymreig.

Yn wreiddiol o Berlin ac yn gyn-fyfyrwraig o Brifysgol Humboldt, mae'n siarad Cymraeg yn rhugl, wedi cyflwyno rhaglenni dogfen teledu ar themâu hanesyddol ar gyfer S4C ac ORB yr Almaen, ac yn cyfrannu'n rheolaidd i Radio Cymru a Radio Wales.

**Robert Rummey**

Mae Robert Rummey yn bensaer ac yn bensaer tirwedd sydd ag arbenigedd mewn ail-bwrpasu asedau hanesyddol er budd adfywio, twristiaeth, addysgol ac amgylcheddol. Ar hyn o bryd mae ei bractis yn defnyddio'r dull hwn ar gyfer tri chastell yn y DU ac un yn yr Eidal, yn ogystal ag ym Mharc Bletchley, gan gydbwyso manyldeb hanesyddol â'r angen am refeniw ymwelwyr. Mae'r practis hefyd wedi cynllunio parc 120 hectar yng Nglofa Betteshanger yng Nghaint a mentrau adfywio, datblygu a hamdden eraill ar y tir.

**Y Cynghorydd Geraint Thomas**

Geraint Thomas yw Arweinydd Cyngor Merthyr Tudful a chyn Aelod Cabinet dros Adfywio, Trawsnewid a Masnacheiddio. Mae'n Gynghorydd Annibynnol dros ward Cyfarthfa ers 2017. Cafodd ei addysg yn Ysgol Uwchradd Cyfarthfa a Choleg Merthyr a bu'n gweithio ym musnes pyllau glo'r teulu cyn sefydlu busnes ailgylchu yn darparu arwynebau diogel ar gyfer mannau chwarae i blant.

**Sara Turnbull**

Mae Sara Turnbull yn amgylcheddwr siartredig, yn entrepreneur cymdeithasol ac yn arweinydd arobryn mewn cynaliadwyedd a gwerth cymdeithasol. Mae ganddi fwy na 22 mlynedd o brofiad o arwain a siapio mentrau cymdeithasol, elusennau a sefydliadau eraill sydd wedi ymrwymo i greu byd mwy cynaliadwy. Mae hi wedi gweithio'n rhyngwladol ym maes ymgysylltu ac adfywio cymunedol, yn aml yn mentora busnesau newydd cymdeithasol a gwyrdd.

Mae Sara yn byw yn Abertawe ac yn gyfarwyddwr anweithredol Coastal Housing Group yn Abertawe - sydd â 6,000 o gartrefi yn ne Cymru - Cadeirydd Creative Workspace Resilience Fund ar gyfer Awdurdod Llundain Fwyaf, aelod o Fwrdd Datblygu Cynaliadwy Trafnidiaeth Llundain a chyfarwyddwr anweithredol Awdurdod Marchnad Covent Garden. Arweiniodd hefyd ar ddatblygu polisïau cynaliadwyedd cymdeithasol ar gyfer Foster + Partners. Hi yw Sylfaenydd a Chyfarwyddwr Workwild a Better Off Edits, a hi oedd Sylfaenydd a Phrif Weithredwr Creative Land Trust, yn ogystal â chyn Is-gadeirydd Cyngor Datblygu Cynaliadwy Ewropeaidd y Sefydliad Tir Trefol.

**Sarah Hopkins**

Sarah Hopkins yw Prifathro Gweithredol Ysgol Babyddol y Gwynfydedig Carlo Acutis yn Merthyr Tydfil – ysgol ar gyfer plant rhwyng 3 a 16 sy'n gwasanaethu ardal Blaenau'r Cymoedd. Ffurfiwyd yr ysgol trwy gyfuno pedair ysgol, yn cynnwys Ysgol Uwchradd Babyddol Esgob Hedley. Graddiodd Sarah mewn Astudiaethau Crefyddol o Brifysgol

Caerdydd, a bu'n gweithio yn y GIG cyn symud i fod yn athro yng Nghaerdydd a Merthyr. Penodwyd yn Brifathro ar Ysgol Babyddol yr Esgob Hedley ym 2018. Arweiniodd y dasg o gryfhau safonau'r ysgol ac mae wedi cynrychioli y sector addysgol ar nifer o fyrddau yn cynnwys Cymwysterau Cymru yn ogystal a phaneli Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol.

## Atodiad C: Staff Sefydliad Cyfarthfa

**Anna Baker, Prif Weithredwr, Sefydliad Cyfarthfa**

Mae Anna Baker yn bensaer ac yn rheolwr prosiect. Cyn ymuno â Sefydliad Cyfarthfa roedd wedi cwblhau cynllun gwerth £9m i adfer pwll nofio cyhoeddus awyr agored hynaf y DU - Pwll Cleveland yng Nghaerfaddon a godwyd yn 1815. Astudiodd Anna, sy'n dod o Glasgow, bensaernïaeth ym Mhrifysgol Dundee a Phrifysgol South Bank Llundain. Mae hi hefyd wedi rheoli prosiectau datblygu siopau mawr ar gyfer Harrods yn Llundain, adeiladu a gosod pafiliwn rhyngweithiol ar gyfer Samsung ym Monaco, ac adeiladu cerflun symudol mawr - y Mobile Orchard - gyda'r bwriad o godi ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol ac i weithredu fel canolbwynt Gŵyl Dinas Llundain.

The location and expected cost of the proposed facility in Newport is commercially sensitive and we are unable to disclose. However, the site is within the City Centre with excellent access to public transport and active travel routes. The size requirements specified by Welsh Government can be accommodated by the Newport proposal. The following key information also featured within the bid submission and may be of assistance:

- Newport is unrivalled in its location and accessibility.
- Newport has a captive audience - 1.6m people live within a one-hour drive of Newport .
- Newport saw the largest population increase in Wales and is the fastest growing City in Wales.
- There are five universities within 30 miles of Newport, including the prestigious Cardiff School of Art & Design (part of Cardiff Met).
- There is a strong and significant creative network in Newport, including internationally renowned groups, organisations and creators. Newport also has the active Alumni of the Newport Arts College.
- The Newport bid proposes a strategic operational partnership in order to complement, rather than compete with, the existing contemporary art offer.
- The Newport site provides flexible learning and creative space alongside gallery/exhibition spaces and visitor facilities.
- All levels of education, from primary and secondary schools through to colleges, universities and adult community learning will be engaged with the Newport proposal.

Providing a national contemporary art gallery within an existing site (as opposed to new build) is a positive initiative and the overall concept reflects the fact that Wales deserves a national platform to showcase existing and emerging contemporary art. Through choosing a location which does not have any existing national gallery provision, a new facility has the ability to reach a wider audience and directly engage and inspire more diverse communities. However in developing the bid there were a number of issues:

- Lack of information/direction on key issues such as the expected operating model for the new facility. It was unclear if this facility is to be part of Amgueddfa Cymru as one of their national facilities, or what the expected relationship would be with organisations such as Amgueddfa Cymru, Arts Council of Wales and the National Library Wales.

Cyngor Abertawe
Swansea Council

Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, Y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

**Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol – Cynnig safle angori**

24.08.2023

## 1. Trosolwg a Chefndir

1.1. Mae'r Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol yn brosiect cyffrous a phwysig i Gymru. Bydd sefydlu hyb angori a buddsoddi yn y gwaith o ehangu'r safleoedd rhanbarthol yn cyfrannu'n sylweddol i economi a naws ddiwylliannol Cymru. Mae'r cynnig hwn yn gyfle i sefydlu oriel genedlaethol sy'n canolbwyntio ar gelf fodern a chyfoes, yn debyg i Oriel Genedlaethol Celf Fodern yr Alban ac Amgueddfa Celf Fodern Iwerddon. Byddai cyflawni hyn yn rhoi Cymru yn yr un man â gwledydd eraill y Deyrnas Unedig, gan gynnig llwyfan ar gyfer mynegiant cenedlaethol ac archwilio diwylliannol, fel y gwelir mewn gwledydd eraill.

1.2. Cyflwynodd Cyngor Abertawe, mewn partneriaeth ag Urban Splash, gynnig i ystyried y Ganolfan Ddinesig yn hyb angori'r Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol ym mis Mawrth 2023. Roedd y cynnig yn nodi gweledigaeth ar gyfer yr oriel, dyluniad pensaernïol, strwythur llywodraethu, ei rôl yn y dirwedd ddiwylliannol, a dull o gyflawni'r rhaglen gyfalaf a'i gweithrediad parhaus. Roedd tîm y cynnig yn cynnwys:

- Gwasanaethau Diwylliannol Cyngor Abertawe
- Tîm Adfywio a Datblygu Ffisegol Cyngor Abertawe
- Urban Splash - Partner adfywio strategol
  https://www.urbansplash.co.uk/
- Counterculture - Busnes diwylliannol ac ymgynghorwyr cynllunio strategol
  https://www.counterculturellp.com/
- Coffey - Penseiri
  https://www.coffeyarchitects.com/
- Gardiner & Theobald - Ymgynghorwyr Cost
  https://www.gardiner.com/

1.3. Penododd Cyngor Abertawe Urban Splash yn bartner datblygu strategol hirdymor ag ef ar draws saith safle datblygu strategol mawr yn 2021, gan gynnwys safle glannau 23 erw'r Ganolfan Ddinesig, sydd wedi'i gynnwys yn y cynnig. Mae Urban Splash yn ddatblygwr sector preifat arloesol sydd â hanes o 30 mlynedd o brosiectau trefol trawsnewidiol ac ailddefnyddio strwythurau presennol yn greadigol.

1.4. Yn unol ag amcanion llesiant corfforaethol Cyngor Abertawe, fel y'u diffinnir yn ei Gynllun Corfforaethol 2023/2024. https://www.swansea.gov.uk/corporateimprovementplan, mae ei Gynllun Rheoli Asedau a'i Strategaeth Llety gysylltiedig yn golygu adleoli swyddogaethau sydd ar hyn o bryd yn y Ganolfan Ddinesig i leoliadau mwy hygyrch ac addas i'r diben yng nghanol y ddinas erbyn 2025/6. Bydd gwacáu'r adeilad yn caniatáu ailddatblygu'r safle.

1.5. Mae oriel Glynn Vivian yn Abertawe yn un o 9 oriel ranbarthol sy'n ffurfio rhwydwaith cenedlaethol o orielau ledled Cymru a fydd yn darparu rhagor o fynediad i'r casgliad cenedlaethol ac yn dod â chelf gyfoes yn nes at gymunedau. Bydd y rhwydwaith o orielau yn cydweithio'n agos ag Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru i guradu arddangosfeydd gan ddefnyddio'r casgliad cenedlaethol ochr yn ochr â rhaglenni a phrosiectau Glynn Vivian hithau.

1.6. Mae'r ymrwymiad yn bosibl drwy gydweithrediad rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae'r tri phartner wedi bod yn gweithio gyda gwahanol leoliadau sy'n cael eu hystyried yn rhan o'r rhwydwaith gwasgaredig o orielau ledled Cymru.

1.7. Mae naw lleoliad ar draws Cymru wedi cyrraedd y rhestr fer i fod yn aelodau o'r rhwydwaith o orielau, a bydd y rhain yn lleoedd lle gall pobl weld y casgliad cenedlaethol yn nes at eu cartrefi. Ar hyn o bryd cynhelir asesiad manylach ar bob un o'r lleoliadau.

1.8. Mae gan Gymru, ac Abertawe y cyfle i ennill cydnabyddiaeth ryngwladol yn gyrchfan ar gyfer celf fodern a chyfoes. Trwy leoli'r hyb angori yn y Ganolfan Ddinesig a sefydlu Glynn Vivian yn safle rhanbarthol yn yr un lleoliad, sicrheir màs critigol, gan ddenu ymwelwyr lleol a chenedlaethol a darparu'r seilwaith a'r sylfaen sgiliau angenrheidiol. Gall effaith gydweithredol yr hyb angori ac oriel Glynn Vivian weithredu'n gatalydd pwerus, gan feithrin twf ac amlygrwydd sector diwylliannol Cymru.

## 2. Canolfan Genedlaethol Angor Oriel Celf Gyfoes – Safle a Phensaernïaeth

2.1. Mae cyflwyniad Cyngor Abertawe ac Urban Splash ar gyfer hyb angori'r Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol yn golygu y bydd yr oriel yn meddiannu'r Ganolfan Ddinesig a fydd wedi'i hailbwrpasu ac adeiledir 'blwch celf' newydd sbon, gan ddarparu cyrchfan hygyrch a chynaliadwy ar raddfa ac ansawdd sy'n gweddu i oriel genedlaethol.

2.2. Mae pensaernïaeth fodernaidd y Ganolfan Ddinesig a'i phriodoleddau ffisegol yn darparu amgylchedd addas ar gyfer dathlu celf Cymru a chelf fodern ym mhob cyfrwng, graddfa a fformat. Mae'r Ganolfan Ddinesig yn enghraifft drawiadol o foderniaeth a briwtaliaeth yr 20fed ganrif, wedi'i chynllunio gan J Webb a CW Quick, Penseiri Sir Gorllewin Morgannwg, ac wedi ei nodi gan Gymdeithas yr Ugeinfed Ganrif yn adeilad o arwyddocâd pensaernïol. Mae lleoliad yr adeilad ar lan y môr, yn edrych allan dros Fae Abertawe, ac wrth ymyl Heol Ystumllwynarth, priffordd brifwythiennol allweddol, yn ei gwneud yn un o adeiladau mwyaf gweladwy ac adnabyddus Abertawe.

2.3. Mae cynnig Cam 1 Urban Splash a Chyngor Abertawe yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol a dymunol a ddiffinnir gan 'Feini Prawf Drafft Safle Angori' a ddarperir gan Is-adran Ddiwylliant Llywodraeth Cymru.

2.4. Bydd yr oriel yn meddiannu adenydd dwyreiniol a chanol y Ganolfan Ddinesig, gan ddefnyddio'r atriwm mawreddog 12m o uchder presennol yn fynedfa ac ail-bwrpasu

siambr y Cyngor yn awditoriwm, a’r ffreutur pen to wedi'i hail-ddychmygu’n fwyty. Mae'r ddwy adain ar Heol Ystumllwynarth yn darparu mannau oriel llinellol, gyda lle ar gyfer ystafelloedd cymunedol ac addysg ar lefel y ddaear sy'n gysylltiedig â'r mannau mynediad. Mae trin celf, storio a swyddogaethau cefn tŷ yn eistedd yn yr adrannau tir isaf ac islawr.

2.5. Bydd 'Blwch Celf' newydd yn cael ei osod rhwng dwy adain bresennol yr adeilad ar ochr Heol Ystumllwynarth. Mae'r Blwch Celf effeithlon yn darparu mannau arddangos plât llawr mawr addasadwy y gellir eu ffurfweddu a'u hisrannu i weddu i ystod o arddangosfeydd, digwyddiadau a chynlluniau, ac sy’n hawdd eu hadleoli neu eu cau'n rhannol wrth newid yr arddangosfa.

2.6. Bydd cyfuno ailddefnydd addasol y strwythur presennol ag ymgorffori cydrannau a adeiladir o’r newydd yn sicrhau'r addasrwydd mwyaf wrth fodloni a rhagori ar y gofynion gofodol penodedig. Bydd mannau oriel sengl yn caniatáu lle ar gyfer gosodiadau ar raddfa fawr a chynnal arddangosfeydd sylweddol. Mae'r dyluniad yn darparu strategaethau cylchrediad a gwasanaeth effeithlon. Gall yr ateb hwn ddiwallu'r anghenion gweithredol a churadurol newidiol wrth ddarparu profiad deniadol i ymwelwyr.

2.7. Mae'r dyluniad yn cynnwys lleoedd sydd ag uchder nenfwd amrywiol, gydag uchder lleiaf o 6m wedi'i sicrhau drwy'r oriel. Mae nifer o fannau arddangos gydag uchder nenfwd hael 10m, wedi'u teilwra'n benodol ar gyfer arddangos cerfluniau mawr a gweithiau celf anferthol. Mae ardaloedd uchder is yn darparu ar gyfer ffurfiau eraill o gyflwyno celf, megis celf ddigidol neu gelf sy'n canolbwyntio ar y gymuned, gan sicrhau dull cynhwysfawr a chynhwysol o raglennu'r oriel. Mae gardd gerfluniau, sy'n manteisio ar nodweddion y dirwedd, yn darparu lleoedd ar gyfer arddangosfeydd arloesol ac ymdrochol.

2.8. Mae'r cynigion dylunio yn darparu cyfleusterau i ddarparu ar gyfer gosodiadau digidol mawr a ffurfiau’r cyfryngau newydd, fel y rhai a geir yn y Blavatnik, trwy ddarparu mannau o faint sylweddol sydd â rhychwantau strwythurol clir. Wedi'i ddylunio gyda galluoedd tywyllu, gan ganiatáu ar gyfer addasu amodau goleuo i weddu i ofynion penodol gosodiadau digidol ac arddangosfeydd eraill sydd ag anghenion gofodol a goleuo unigryw. Mae'r gallu hwn i addasu yn sicrhau bod yr oriel yn parhau i fod ar flaen y gad o ran mynegiant artistig blaengar, gan ddarparu ar gyfer ystod amrywiol o gyfryngau creadigol.

2.9. Croesawir artistiaid i'r oriel mewn mannau stiwdio ar gyfer 'Artistiaid Preswyl'. Wedi'u cynllunio i ddarparu ar gyfer rhaglen breswyl gylchdroadol, amharhaol, mae'r mannau stiwdio hyblyg hyn yn darparu amgylchedd ysbrydoledig i artistiaid ddatblygu ac arddangos eu gwaith. Drwy gynnig y lleoedd stiwdio hyn, bydd yr oriel yn cyfoethogi profiad ymwelwyr drwy ymgysylltu'n uniongyrchol ag artistiaid a'u prosesau creadigol.

2.10. Mae dyluniad yr oriel yn cynnwys lleoedd ar gyfer caffi, safleoedd manwerthu, a gweithgareddau eraill sy'n creu incwm a all weithredu'n annibynnol ar oriau oriel, gwella potensial cynhyrchu refeniw a'i wneud yn gyrchfan ar gyfer gweithgareddau diwylliannol a chymdeithasol. Mae caffi a gofod manwerthu ar y llawr gwaelod sy'n wynebu'r môr, ynghyd â bwyty pen to, y tu allan i'r llinell ddiogel, yn cyflwyno gweithrediadau masnachol hyfyw sy'n gweithredu’n atyniadau yn eu rhinwedd eu hunain.

2.11. Bydd mannau dysgu ac ymgysylltu hyblyg ac addasadwy yn gallu darparu ar gyfer ystod o weithgareddau, gan gynnwys gweithdai, darlithoedd, a rhaglenni rhyngweithiol wedi'u teilwra ar gyfer gwahanol grwpiau oedran a diddordebau. Mae'r agosrwydd at

leoedd oriel yn ei gwneud yn bosibl integreiddio'r arddangosfeydd yn ddi-dor â'r rhaglenni addysgol, gan greu profiad dysgu ymdrochol hygyrch.

2.12. Mewn lleoliad canolog, bydd mannau cymunedol o ansawdd uchel yn darparu ar gyfer ystod amrywiol o weithgareddau a digwyddiadau. Nod y dull hwn yw creu canolbwynt diwylliannol bywiog sydd nid yn unig yn gyrchfan i selogion celf ond hefyd yn fan ymgynnull i bobl gysylltu a chydweithio.

2.13. Y nod yw i'r prosiect gyflawni statws Sero Net, gan ei osod yn esiampl o ran cynaliadwyedd a chyfrifoldeb amgylcheddol. Mae ailddefnyddio ac adnewyddu'r adeilad presennol yn ddatrysiad cynaliadwy o ran carbon corfforedig a gweithredol. Bydd technolegau ôl-osod o'r radd flaenaf yn cael eu defnyddio, fel y bo'n briodol, i sicrhau perfformiad gorau posibl yr adeilad. Bydd elfennau’r gwaith adeiladu newydd yn cyrraedd y safonau uchaf o ran allyriadau carbon corfforedig, gweithredol a chylch oes.

2.14. Mae dyluniad yr oriel yn mabwysiadu egwyddor hygyrchedd i bawb, gan ddarparu mynediad di-dor ledled yr adeilad. Mae'r dyluniad yn cynnwys cynllun a mannau arbenigol clir a darllenadwy, yn ystafelloedd synhwyraidd a 'mannau newid', gan sicrhau y gall pob ymwelydd lywio a phrofi'r lleoliad yn gyfforddus ac yn ddiogel.

2.15. Bydd yr Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol yn rhan sylweddol o gynlluniau ehangach i drawsnewid y Ganolfan Ddinesig a'r ardal gyfagos yn ardal glannau fywiog newydd, gan ailgysylltu Abertawe â thraeth ei dinas a'r bae sy'n wynebu'r de. Yr adeilad presennol fydd canolbwynt cyfadeilad defnydd cymysg ar raddfa fawr. Bydd yr oriel yn cyfrannu at ac yn elwa o'r amrywiaeth fywiog hon o ddefnyddiau, gan helpu i yrru ymwelwyr ychwanegol i'r safle, a denu ymwelwyr ychwanegol i'r oriel a allai fod wedi dod i'r glannau am resymau eraill.

2.16. Mae lleoliad canol dinas y Ganolfan Ddinesig yn cyd-fynd â menter "Canol Trefi yn Gyntaf" Llywodraeth Cymru ac yn elwa o gysylltiadau trafnidiaeth rhagorol.

2.17. Gall cynnig dylunio'r oriel ddarparu ar gyfer nifer sylweddol o ymwelwyr blynyddol, gan gyrraedd y targed hanfodol o 750,000 o ymwelwyr y flwyddyn ac anelu at y lefel a ddymunir o filiwn o ymwelwyr y flwyddyn, gyda'r potensial i ehangu ymhellach yn ôl yr angen. Mae maint y safle yn fwy na chapasiti'r lleoliadau presennol yn y ddinas, sy'n amrywio o 75,000 i 200,000 o ymwelwyr y flwyddyn, gan ddangos potensial yr oriel i ddenu cynulleidfaoedd mwy o faint.

## 3. Hyb Angori Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol – Modelau Llywodraethu, Cyllid, Gweithredol, a Rhaglennu

3.1. Mae'r cynnig a gyflwynwyd, yn unol â gwahoddiad cynigion Cam 1, yn nodi modelau cyllido a llywodraethu awgrymedig, wedi'u llywio gan gyngor arbenigol, a dadansoddi'r canlynol (cynhwysir yr adroddiad cysylltiedig yn atodiad i'r cynnig):

- Adolygiad llawn o raglen, graddfa, llywodraethu a chyllid orielau tebyg
- Anghenion artistiaid
- Anghenion ymwelwyr a'r gymuned
- Gofynion y sector addysg bellach ac uwch
- Modelu niferoedd ymwelwyr a threiddiad cysylltiedig y farchnad
- Ffynonellau incwm a ragwelir ar draws ystod o senarios ymweld
- Strategaethau a pholisïau cenedlaethol, rhanbarthol a sefydliadol perthnasol

3.2. Yr argymhelliad yw i'r Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol gael ei hariannu a'i staffio trwy sefydliad cenedlaethol a gaiff ei sefydlu o'r newydd, hyd braich oddi wrth y llywodraeth gyda phwerau annibynnol o ran llywodraethu, gwneud penderfyniadau, codi arian, a chynhyrchu incwm ond wedi'u hariannu'n sylweddol, at ddibenion cyfalaf a refeniw, trwy gymhorthdal gan y llywodraeth. Mae'r model hwn yn unol â modelau a welir mewn orielau cenedlaethol a mawr tebyg.

3.3. Byddai Cyngor Abertawe, ynghyd ag Urban Splash, yn gweithio'n agos gyda'r sefydliad i gyflawni'r prosiect.

3.4. Mae'r cyflwyniad yn cynnwys strwythur staffio drafft gyda'r arbenigedd angenrheidiol i gyflwyno'r rhaglen arddangos, arddangosfeydd casgliadau a chysylltu â'r casgliad cenedlaethol a'r orielau lloeren.

3.5. Mae'r cynnig yn cyflwyno arfarniad cost lefel uchel sy'n ymwneud â chostau cychwynnol a pharhaus darparu'r safle angori, gan gynnwys:

- Costau prosiect cyfalaf.
- Costau gweithredu / refeniw/gweithredu blynyddol parhaus.
- Costau datblygu sefydliadol a gweithgareddau cyn agor: mae'n ofynnol datblygu capasiti sefydliadol dros gyfnod o flynyddoedd cyn agor i reoli'r datblygiad, cynllunio'r rhaglen agoriadol, a sicrhau parodrwydd gweithredol.

3.6. O dan fenter ar y cyd neu bartneriaeth ag Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, bydd yr oriel newydd yn curadu ac yn cyflwyno rhaglen sy'n ei galluogi i ddod yn lleoliad canolog ar gyfer arddangosfeydd o gasgliadau cenedlaethol parhaol Amgueddfa Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a'r orielau rhanbarthol. Mae'r cais yn nodi fframwaith ac amserlen arddangos awgrymedig lawn wedi'i chostio a'i datblygu trwy ddadansoddi amcanion arfaethedig yr oriel, a rhaglenni arddangos sefydliadau tebyg.

3.7. Byddai rhaglenni digidol a mynediad digidol yn ddaliadau sylfaenol wrth wraidd unrhyw raglen neu fodelau gweithredu a fyddai'n rhan o'r Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol. Er bod y Ganolfan Ddinesig yn cynnig mwy na digon o le a chyda buddsoddiad, yr amodau cywir i ofalu am gasgliadau ar yr ystyr draddodiadol o ran diogelwch, cadwraeth, rheolaethau amgylcheddol, mae hefyd yn darparu lle rhagorol i'r cyhoedd ymgysylltu'n ddigidol â'r casgliad trwy Gelf Ar Cyd a systemau rheoli casgliadau eraill.

3.8. Bydd yr oriel yn gweithio yn ôl Egwyddorion Cyngor Cyfarwyddwyr Amgueddfeydd Cenedlaethol ar gyfer Benthyca gan gynnwys y disgwyliad y bydd yn bodloni'r safonau ar gyfer amgylchedd a diogelwch a nodir yng Nghanllawiau Cynllun Indemniad y Llywodraeth ar gyfer sefydliadau anghenedlaethol neu fel y cytunwyd â'r sefydliad benthyca. Gwasanaethau Diwylliannol y Cyngor a'i bartneriaid sy'n gyfrifol am reoli a churadu Oriel Gelf Glynn Vivian; Arddangosfa Dylan Thomas; Amgueddfa Abertawe; Archifau Gorllewin Morgannwg ac Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, y mae gan bob un ohonynt Achrediad MA ac wedi'u rhwydweithio i'w cymheiriaid yn rhyngwladol. Glynn Vivian, ochr yn ochr â Mostyn ac Artes Mundi, yw'r unig dair oriel sy'n rhan o Rwydwaith PlusTate yng Nghymru, sy'n cefnogi rhagoriaeth yn ei raglenni arddangos a dysgu cyfoes. Mae'r broses ar gyfer cydlynu a hwyluso arddangosfeydd teithiol a chyfnewid yn adnabyddus ac yn cael ei defnyddio'n rheolaidd, gan sicrhau benthyciadau o gasgliadau cenedlaethol a rhyngwladol ac i'r gwrthwyneb. Gydag addasiad priodol o ran rheolaethau amgylcheddol, mesurau diogelwch i'w harddangos a'u storio, byddai hwn yn lle oriel o'r radd flaenaf. Mae llawr gwaelod isaf y Ganolfan Ddinesig, a ddefnyddir ar hyn o bryd gan y Llyfrgell Ganolog yn gyfleuster dosbarthu ar gyfer 17 o lyfrgelloedd, yn darparu mynediad rhagorol ac yn llwytho cyfleusterau'r bae ar gyfer derbyn a dosbarthu

gwaith celf. Mae rhestr o bartneriaethau arddangos cenedlaethol a rhyngwladol posibl wedi'i chynnwys yn y cynnig.

## 4. Rhinweddau'r Model Arfaethedig – 8-10 safle rhanbarthol a hyb angori

4.1. Mae Cyngor Abertawe yn cydnabod rhinweddau'r model arfaethedig o safleoedd rhanbarthol a hyb angori. Bydd angen modelau ariannu cyfalaf a refeniw priodol, a datblygu adnoddau, er mwyn sicrhau cynaliadwyedd a bywiogrwydd hirdymor y safleoedd rhanbarthol, yr hyb angori, a'r sefydliadau a'r rhwydweithiau diwylliannol cenedlaethol a lleol presennol. Mae gan yr hyb angori sydd wedi'i lleoli yn y Ganolfan Ddinesig, a'r Glynn Vivian yn safle rhanbarthol, y potensial i gyfrannu'n sylweddol at sector celf fodern a chyfoes Cymru. Gallai eu hymdrechion cyfunol, mewn un gyrchfan, fod yn gatalydd pwerus, gan hybu twf ac amlygrwydd y maes artistig hwn.

Mae'r rhinweddau yn cynnwys:

4.2. Datgelu'r casgliadau cenedlaethol i gynulleidfaoedd newydd drwy alluogi mynediad i'r cynulleidfaoedd ehangaf a mwyaf amrywiol drwy'r hyb canolog ar raddfa fwy a safleoedd lleol. Bydd hyb angori yn gallu arddangos casgliadau sydd ar hyn o bryd yn cael eu storio oherwydd cyfyngiadau arddangos a chapasiti.

4.3. Rhoi oriel i Gymru sydd â'r seilwaith angenrheidiol i alluogi cyfranogiad pellach yn y byd celf rhyngwladol trwy gomisiynau, cydweithrediadau ac arddangosfeydd teithiol.

4.4. Creu canolbwynt ar gyfer celf fodern a chyfoes Cymru ac artistiaid i ddathlu diwylliant a hunaniaeth Cymru heddiw. Gan weithio ochr yn ochr â'r 8-10 safle rhanbarthol a'r sefydliadau partner cenedlaethol, byddai'r hyb angori'n llwyfan i archwilio a thrafod beth yw'r Gymru gyfoes: beth yw ei gwreiddiau, sut deimlad yw bod yn Gymro neu'n Gymraes heddiw, sut olwg sydd ar Gymru yn y dyfodol.

4.5. Sefydlu hyb ar gyfer sector celfyddydau gweledol Cymru, gan ddarparu canolfan o bwys, o'r radd flaenaf, curadurol, gweinyddol, logistaidd ar gyfer y model rhanbarthol arfaethedig. Felly, yn y dyfodol, diogelu'r gwaith o gynhyrchu ac ymgysylltu â chasgliadau celf a threftadaeth yn oes y diwylliant digidol a'r newid yn yr hinsawdd.

4.6. Cyfrannu i'r gwaith o ddatblygu sgiliau a thalentau sylweddol:

4.6.1. Rhoi cyfleoedd i staff yr oriel ddatblygu eu hymarfer a'u profiad mewn meysydd ymchwil a sgiliau newydd, gan gynnwys o ran curadu, casgliadau, a rheoli arddangosfeydd, o fewn cyd-destun oriel o bwys rhyngwladol.

4.6.2. Byddai'r hyb angori yn adnodd pwysig i'r system addysg gelfyddydol bellach ac uwch. Mae gan y prosiect y potensial i ymgysylltu ag ystod o sefydliadau addysgol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, gan alluogi myfyrwyr a staff i elwa o gyfleoedd talent a datblygiad proffesiynol, gan gynnwys y gallu i ddysgu mewn 'amser go iawn' yng nghyd-destun yr oriel.

4.7. Gweithredu'n gonglfaen yr adfywio trefol ac yn elfen strategol allweddol wrth ddarparu economi ymwelwyr a diwylliannol gryfach.

4.7.1. Byddai'r hyb angori yn ased ac yn atyniad ar raddfa genedlaethol a rhyngwladol. Wedi'i leoli yn y Ganolfan Ddinesig mewn cyrchfan glannau fywiog, byddai'r hyb yn gatalydd hanfodol ar gyfer twf pellach yn ail ddinas Cymru a'r economi ranbarthol ehangach trwy ddenu ton newydd o fuddsoddiad, ymwelwyr a datblygiad cynaliadwy.

4.7.2. Mae rhaglen adfywio Abertawe yn diogelu ei rôl yn brifddinas ranbarthol de-orllewin Cymru, gan hwyluso twf yr economïau rhanbarthol a chenedlaethol ehangach. Llynedd, cyflawnwyd ei gynllun mawr cyntaf, Bae Copr, gydag arena nodedig â 3,500 o seddi, parc arfordirol, a chartrefi newydd. Y flwyddyn nesaf bydd nifer o ddatblygiadau newydd yn agor, gan gynnwys y gweithle sy'n canolbwyntio ar dechnoleg y Fargen Ddinesig ar 71/72 Ffordd y Brenin, Canolfan Gymunedol y Cyngor, yn ogystal â Theatr y Palas ar ei newydd wedd. Mae Gwaith Copr hanesyddol Hafod Morfa yn elwa o Ddistyllfa Penderyn a'r Ganolfan Ymwelwyr sydd newydd agor a'r cynnig gwerth £29 miliwn i'r gronfa Ffyniant Bro a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer Cwm Tawe Isaf. Mae Cyngor Abertawe'n gweithio gydag Urban Splash i gyflwyno safleoedd eraill gan gynnwys Canol Abertawe a glan yr afon St Thomas. Bydd seilwaith newydd yn ailgysylltu craidd trefol Abertawe â'i draeth; 'Ffordd I'r Môr' gyda chyswllt Canol Abertawe, Bae Copr a Glannau'r Ddinas trwy lwybr teithio llesol di-draffig. Mae'r cynlluniau strategol hyn ar raddfa fawr yn ceisio sicrhau twf o ran swyddi, gwerthoedd, a buddsoddiad preifat, gan adeiladu gallu'r ddinas i gynnal datblygiad hyfyw.

4.7.3. Byddai Hyb Angori Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol a safle rhanbarthol Glynn Vivian yn atyniadau a hwyluswyr allweddol o fewn rhwydwaith diwylliannol ehangach. Bydd yn gwella rhwydwaith oriel presennol Abertawe drwy ddenu ymwelwyr i'r ddinas a fydd hefyd â diddordeb yn y cynnig celfyddydau gweledol ehangach yn Abertawe. Mae hanes y ddinas o gynnal digwyddiadau ac atyniadau mawr, megis Sioe Awyr Cymru, Proms yn y Parc, y BBC, a chyngherddau sy'n cynnwys artistiaid byd-enwog, yn dangos ei gallu i farchnata, rheoli a chynnal ei phortffolio diwylliannol.

Diwedd.

Welsh Parliament
**Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol**

# Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol
## Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu

Awst 2023

Fel rhan o ymchwiliad y **Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, Y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol** i gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer **oriel celf gyfoes genedlaethol**, cynigiodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion ddull ansoddol o ymgysylltu, yn cynnwys chwe grŵp ffocws. Mae'r papur hwn yn cyfleu'r canfyddiadau.

### Y cefndir

**1.** Roedd gan y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ddiddordeb mewn clywed barn artistiaid, staff orielau, ffrindiau a chefnogwyr orielau celf ar rinweddau'r model a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol a mynediad digidol at gelf gyfoes.

### Ymgysylltu

**2.** Rhwng 24 Gorffennaf ac 8 Awst 2023 cynhaliwyd chwe grŵp ffocws ar-lein gan y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion. Diben y grwpiau ffocws oedd rhoi barn rhanddeiliaid i'r Pwyllgor ar gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol a mynediad digidol at gelf gyfoes.

## Cyfranogwyr

**3.** Cymerodd 29 o gyfranogwyr ran yn y grwpiau ffocws gan gynnwys academyddion, artistiaid cenedlaethol a rhyngwladol yng Nghymru ac o Gymru, staff orielau ac aelodau o elusennau a sefydliadau celf.

**4.** Roedd rhai o'r cyfranogwyr yn gysylltiedig â lleoliadau a gyrhaeddodd y rhestr fer fel aelodau o'r rhwydwaith o orielau ar gyfer yr Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol. Roedd rhai o'r cyfranogwyr yn gysylltiedig â lleoliadau sy'n cynnig ar gyfer y lleoliad angor ar gyfer yr Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol.

**5.** Canfuwyd y cyfranogwyr drwy arolwg sgrinio a anfonwyd at dros 25 o artistiaid unigol, dros 20 oriel, cyhoeddus a phreifat, a dros 15 o elusennau neu sefydliadau celf sy'n gysylltiedig â chelf ledled Cymru.

**6.** Gwahoddwyd pob lleoliad ar y rhestr fer fel aelodau o'r rhwydwaith o orielau ar gyfer yr Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol i gymryd rhan yn y grwpiau ffocws.

**7.** Cysylltodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion â rhanddeiliaid perthnasol (er enghraifft, Celfyddydau Anabledd Cymru a Chyngor Hil Cymru) i sicrhau cynrychiolaeth deg, amrywiol a chynhwysol yn y grwpiau ffocws.

**8.** Daeth y cyfranogwyr o'r pump o ranbarthau'r Senedd.

**9.** Diolch i bawb a gyfrannodd at y rhaglen ymgysylltu.

## Methodoleg

**10.** Cynhaliwyd pob grŵp ffocws ar-lein i alluogi cymaint â phosibl o'r academyddion, artistiaid, staff orielau ac aelodau o elusennau a sefydliadau celf ledled Cymru i gymryd rhan.

**11.** Trafodwyd y pwyntiau trafod canlynol yn ystod y grwpiau ffocws:

- Beth yw rhinweddau'r model a gynigir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol?
- Beth yw heriau'r model a gynigir?
- Pa wahaniaeth y bydd cael mynediad at gelf gyfoes yn lleol yn ei wneud i bobl a'u cymunedau?
- Beth fydd manteision cael mynediad digidol at gelf gyfoes, os o gwbl?

- Beth fydd anfanteision cael mynediad digidol at gelf gyfoes, os o gwbl?

## Y prif themâu

### Rhinweddau cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol

**12.** Roedd yr holl gyfranogwyr yn cytuno y byddai potensial mawr i Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol allu hyrwyddo artistiaid, creu swyddi i artistiaid ac ymarferwyr a helpu i hyrwyddo Cymru.

**13.** Roedd mwyafrif y cyfranogwyr yn gefnogol i gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer model gwasgaredig ar gyfer yr Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol.

**14.** Cytunodd y cyfranogwyr mai un o brif rinweddau'r model gwasgaredig fydd rhoi mynediad at y casgliad cenedlaethol, ledled Cymru. Mae'n bosibl y bydd yn ei nodi'n genedlaethol ac yn rhyngwladol.

**15.** Siaradodd llawer o'r cyfranogwyr, yn artistiaid a staff orielau, am botensial yr Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol i artistiaid Cymreig ac artistiaid o Gymru ar lefel ryngwladol.

**16.** Rhannodd y cyfranogwyr eu gweledigaeth o ran comisiynau newydd a fydd yn ymateb i'r casgliad cenedlaethol gan sicrhau nad yw'r casgliad ei hun yn parhau'n statig.

**17.** Roedd y cyfranogwyr yn falch bod cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer yr Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol i'w gweld wedi ennill momentwm yn ystod y misoedd diwethaf.

**18.** Roedd yr holl gyfranogwyr yn cytuno fod lansio gwefan newydd yr Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol, **Celf ar y Cyd** ym mis Mehefin 2023, yn garreg filltir arwyddocaol yn natblygiad cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol.

> *"Dwi ddim yn siŵr a yw pawb sy'n cymryd rhan yn deall maint hyn .....beth allai hyn fod, a beth yn ei hanfod, mae angen iddo fod, a gydd yn ddigon da. Os ydyn ni'n am wneud hyn, mae'n rhaid i ni ei wneud yn iawn."*

> *"[Mae angen inni] godi hyn o'r 'dyma ein casgliad ni ac rydyn ni'n ei wneud yn fwy hygyrch' sydd, wrth gwrs, yn wych, i 'Beth am inni godi'r bar go iawn, o ran beth mae celf Cymru yn ei olygu, yn rhyngwladol.'"*

## Model gwasgaredig

**19.** Roedd mwyafrif y cyfranogwyr yn cytuno bod y model gwasgaredig yn fodel cryf, sy'n addas iawn i Gymru, lle gellid defnyddio'r lleoliad angor a'r orielau rhwydwaith i rannu casgliadau cenedlaethol.

**20.** Teimlai'r cyfranogwyr bod hwn yn gyfle i wneud rhywbeth gwahanol ac arloesol gyda chelf gyfoes yng Nghymru yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o'r casgliad cenedlaethol ar lefel leol.

**21.** Gan dybio y bydd yr holl leoliadau a restrir ar gyfer yr orielau rhwydwaith o fewn y model gwasgaredig yn dwyn ffrwyth, cytunodd y cyfranogwyr fod y lleoliadau a restrir ar gyfer yr orielau rhwydwaith o fewn y model gwasgaredig yn dangos demograffig da ledled Cymru, gan gynnwys ardaloedd gwledig.

**22.** Awgrymodd llawer o gyfranogwyr mai'r orielau rhwydwaith yw'r 'llinyn' allweddol i'r model gwasgaredig wrth ganiatáu i bobl gael mynediad at y casgliad cenedlaethol a chelf gyfoes yng Nghymru.

**23.** Awgrymodd y cyfranogwyr fod hwn yn gyfle unigryw i orielau sy'n rhan o gynlluniau Llywodraeth Cymru a thu hwnt, ledled Cymru, ddatblygu fel orielau a gweithio mewn partneriaeth i hyrwyddo celf gyfoes yng Nghymru.

**24.** Soniodd rhai cyfranogwyr am pa mor werth chweil y bu hyd yma, yn gweithio gydag orielau rhwydwaith eraill, i allu elwa o rannu syniadau, profiadau ac arbenigedd.

**25.** Awgrymodd rhai cyfranogwyr y byddai cael gwaith wedi'i guradu a'i arddangos yn wahanol ac yn fwy amrywiol mewn gwahanol leoliadau o fudd i bawb.

**26.** Soniodd cyfranogwyr eraill sut y gallai'r orielau rhwydwaith, yn benodol, ddatblygu arbenigedd mewn gwahanol ffurfiau (*genre)* o fewn y casgliad cenedlaethol.

**27.** Cytunodd y cyfranogwyr y dylai pob 'llinyn' o'r Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol - naw oriel rwydwaith, tair canolfan bosibl a'r safle angor - gefnogi gweithgarwch artistiaid lleol.

**28.** Awgrymodd rhai cyfranogwyr y gallai cael mynediad at gelf yn lleol annog pobl i fuddsoddi a phrynu gwaith celf.

**29.** Soniodd rhai cyfranogwyr am werth y model gwasgaredig yng nghyd-destun oes Deallusrwydd Artiffisial. Byddai'r cyfle i allu cael mynediad at gelf yn lleol yn cyfrannu at yr angen i ymateb fel bodau dynol i syniadau cymhleth trwy gelf gyfoes.

**30.** Soniodd cyfranogwyr am y newid ym myd gwaith, yn enwedig ers y pandemig, er enghraifft, gweithio o bell a gweithio oriau hyblyg. Byddai gallu gweld y casgliad cenedlaethol yn eu cymuned leol yn gwneud gwahaniaeth i bobl gan eu bod o bosibl yn treulio eu hamser yn wahanol ac yn ailasesu eu cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.

> *"Mae mynd â chelf i wahanol rannau o'r wlad, yn enwedig ei gymryd o'r lle rydym nawr yn ne ddwyrain Cymru i'w glodfori a dylid ei gefnogi."*
>
> *"Mae'r ffaith bod [Cymru] yn ddaearyddol amrywiol, ond hefyd yn ddaearyddol fach yn ei gwneud yn amlwg yn addas ar gyfer y math hwn o fodel.....mae pob un o'r lleoliadau'n unigryw iawn yn eu ffordd eu hunain."*
>
> *"Mae wedi rhoi cyfle i ni [yr orielau rhwydwaith] ddatblygu'n broffesiynol."*
>
> *"... gallu ei guradu'n wahanol mewn gwahanol leoedd....mae hynny'n ymddangos i mi yn gwbl gadarnhaol."*
>
> *"Dwi ddim yn meddwl ein bod ni'n bloeddio digon am gelf o Gymru, byddai hyn yn ffordd wych o wneud hynny. Rwy'n teimlo'n gryf iawn amdano."*
>
> *"Mae'n rhaid i'r safle angor fod yn adeilad symbolaidd, mae hynny'n bwysig, mae angen iddo fod yn gyrchfan.......ond rydw i hefyd yn meddwl mai'r hyn sy'n bwysig yw lledaenu celf....dyna beth fydd yn*

> *helpu i feithrin celf gyfoes yng Nghymru. Mae 'na lawer o dalent yng Nghymru sydd ddim yn cael ei hyrwyddo."*

**Safle angor**

**31.** Awgrymodd y cyfranogwyr y dylai'r safle angor gael ei wreiddio yn hanes Cymru, gydag arwyddocâd rhyngwladol. Er enghraifft, hanes diwydiannau'r gorffennol yng ngogledd a de Cymru. Byddai hyn yn clymu treftadaeth a diwylliant Cymru gyda chelf gyfoes ac yn caniatáu i bobl ymateb iddi.

**32.** Soniodd y cyfranogwyr y dylid adlewyrchu'r egwyddor hon yn yr orielau rhwydwaith hefyd - gan ddefnyddio gweithiau celf perthnasol o'r casgliad cenedlaethol i gyflwyno a chyfoethogi dealltwriaeth o hanes lleol.

**33.** Awgrymodd llawer o gyfranogwyr y dylai'r safle angor fod yn 'eiconig' ac y dylai weithredu fel rhiant-safle. Dywedodd cyfranogwyr eraill ei fod yn 'adeilad symbolaidd' posibl.

**34.** Ychydig o gyfranogwyr a soniodd am Barc Cerfluniau Swydd Efrog - sydd wedi datblygu o fod yn goleg bach i barc a chanolfan rhyfeddol - fel model da i'w ddilyn ar gyfer y safle angor.

> *"Mae hanes pobl yn dod i Gymru ac yn gweithio yng Nghymru ac yn cael eu cefnogi a'u hysbrydoli gan Gymru ac yn cynhyrchu gwaith o safon rhyngwladol .......Mae gan y safle angor gyfrifoldeb i gefnogi gwaith newydd sy'n cael ei gynhyrchu yma yng Nghymru."*
>
> *"Mae gallu sicrhau bod mynediad ar draws y wlad gyfan yn ymddangos fel rhywbeth gwych i'w wneud, ond mae yna gryfder hefyd mewn cael safle angor, achos mae rhyw angen lle canolog arnoch chi a all gefnogi'r rhwydwaith hwnnw... fel rhiant-safle."*

**Effaith arfaethedig gallu cael mynediad at gelf yn lleol**

**35.** Cytunodd yr holl gyfranogwyr fod gan y model gwasgaredig botensial enfawr i fod o fudd i bobl a chymunedau lleol.

**36.** Fel athrawon a thiwtoriaid, rhannodd llawer o gyfranogwyr eu profiad uniongyrchol o weld effaith celf a gweithgareddau celf ar lesiant unigolion a chymunedau lleol.

**37.** Soniodd llawer o'r cyfranogwyr am y manteision ehangach i wasanaethau eraill hefyd, er enghraifft gofal cymdeithasol a gwasanaethau iechyd.

**38.** Cytunodd yr holl gyfranogwyr fod y model gwasgaredig yn cynnig cyfleoedd pellgyrhaeddol o fewn y sector addysg. Soniodd un cyfranogwr am ddiffyg adnoddau mewn ysgolion, gan orfod mynd â deunyddiau ac adnoddau sylfaenol gyda hi bob amser i weithdai ysgolion. Roedd yn gobeithio y byddai'r model gwasgaredig yn cynnig cyfleoedd newydd, cyffrous ar gyfer partneriaethau rhwng orielau'r rhwydwaith ac ysgolion lleol, a fyddai'n creu ac yn meithrin diddordeb pobl ifanc yn y casgliad cenedlaethol.

**39.** Siaradodd rhai cyfranogwyr am botensial y model gwasgaredig iddyn nhw fel artistiaid sy'n dod i'r amlwg.

> *"Fel athro celf a cheisio cael celf i bob rhan o'r gymuned drwy'r amser, i bawb, bydd yn gwneud gwahaniaeth mor enfawr, a gallu hyrwyddo hynny a theimlo'n falch o sefydliad rydyn ni wedi'i ddatblygu sy'n ein cysylltu ni i gyd ymhellach ac sy'n ein galluogi ni i gael perthynas gryfach â rhannau eraill o Gymru… mae hynny mor angenrheidiol ar hyn o bryd."*
>
> *"Fel tiwtor… mae'r ymateb gan bobl sy'n mynychu [dosbarthiadau adferol] yn anghredadwy ac mae'r farn feddygol nawr yn troi tuag at fuddion celf."*
>
> *"Mae gan Gymru artistiaid di-rif a thalentog sy'n gweithio yn ei chymunedau. Byddai'n wych iddyn nhw gael rhywfaint o gydnabyddiaeth."*
>
> *"Rydych chi'n sôn am £300 i gael bws [ar gyfer ymweliad ysgol] a dyw'r arian yna ddim ar gael heddiw….. Felly, mae'r syniad o gael [celf] yn ein cymunedau yn syniad gwych…… ein bod yn gallu agor byd y celfyddydau i'r gymuned, heb orfod teithio."*

### Twristiaeth

**40.** Soniodd y cyfranogwyr fod gan Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol y potensial i lywio twristiaeth a buddsoddiad mewn ardaloedd lleol, ledled Cymru.

> *"O ran twristiaeth rwy'n meddwl bod e'n enfawr. Rydyn ni'n cael pobl sy'n dod ar wyliau yng ngorllewin Cymru ac sy'n dod nawr i ddim ond gweld arddangosfeydd.....ac [o ran] perchnogaeth leol a phobl mewn gwirionedd yn rhyw fath o falch o gelf Cymru...... maen nhw cystadlu a dweud y gwir ar y llwyfan rhyngwladol, achos mae'r safon eisoes yno."*

### Y Gymraeg

**41.** Siaradodd llawer o'r cyfranogwyr am y cyfleoedd y byddai'r oriel celf gyfoes genedlaethol yn eu cynnig i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

## Heriau cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol

### Diffyg gwybodaeth

**42.** Soniodd llawer o'r cyfranogwyr am eu pryder am y diffyg gwybodaeth sydd ar gael am gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol.

**43.** Fel artistiaid, roedd llawer o'r cyfranogwyr yn teimlo nad oeddent wedi bod yn rhan o'r broses o ddatblygu cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer yr Oriel Celf Gyfoes.

**44.** Cododd rhai cyfranogwyr bryderon am y diffyg gwybodaeth logistaidd am gynlluniau Llywodraeth Cymru, er enghraifft amserlenni a staffio.

> *"Mae artistiaid yn teimlo nad ydyn nhw'n rhan o'r trafodaethau. I fod yn onest, mae'r orielau wedi teimlo nad ydyn nhw'n rhan o'r drafodaeth ers cryn amser hefyd."*
>
> *"Byddai rhagor o wybodaeth yn ddefnyddiol. Mae'n rhaid i ni ddyfalu, bron â gobeithio beth allai hyn fod."*
>
> *"Does gennym ni ddim ymdeimlad o sut fydd hyn yn gweithredu a phwy fydd yn ei redeg."*
>
> *"Rwy'n ei chael yn anodd oherwydd bod llawer o ffactorau anhysbys ... gallaf weld llawer o botensial ynddo, a gobeithio ei fod yn gyfle da i ddod â phobl sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn celf, er*

> *enghraifft pobl anabl, ond yr holl grwpiau eraill sydd angen eu gweld hefyd."*

### Terminoleg

**45.** Awgrymodd un cyfranogwr nad model newydd yw hwn, mae'n fodel sydd eisoes wedi'i hen sefydlu mewn mannau eraill. Fodd bynnag, nid yw'n cael ei ddisgrifio fel 'oriel' fel arfer. Mae hyn wedi arwain at ddryswch a diffyg dealltwriaeth o'r prosiect.

**46.** Mynegodd rhai cyfranogwyr bryderon am ddiffyg cysondeb yn y defnydd o derminoleg. Er enghraifft, caiff y safle angor ei ddisgrifio fel adeilad blaenllaw a safle angor, dau syniad gwahanol iawn.

**47.** Awgrymodd un cyfranogwr y byddai cael adeilad blaenllaw gyda'i gyllideb a’i staff ei hun yn rhoi hwb i'r casgliad cenedlaethol, mewn ffordd na fyddai'r model gwasgaredig yn ei wneud.

**48.** Soniodd yr un cyfranogwr mai'r anfantais o gael yr adeilad blaenllaw fyddai'r berthynas, efallai, â'r orielau rhwydwaith.

> *"Mae'r geiriad yn eithaf dryslyd … mae'r gair oriel yn awgrymu gofod ffisegol."*
>
> *"Un peth sy'n ddiddorol iawn yn fy marn i yw bod y model Cymreig hwn yn cael ei ddisgrifio fel yr Oriel Celf Gyfoes genedlaethol….Yn syml, model o ledaenu casgliadau yn fwy effeithiol ledled gwlad."*
>
> *"Mae’na lawer o bethau da am y peth; mae'n cydnabod daearyddiaeth ein gwlad, amrywiaeth ddiwylliannol y wlad. Ond yn ymarferol, mae'n ymddangos ei fod yn hynod gymhleth ac mewn gwirionedd yn broses eithaf llwythog."*

### Model gwasgaredig

**49.** Siaradodd llawer o'r cyfranogwyr am yr her i bob lleoliad o dan sylw gadw eu hunaniaeth eu hunain fel safleoedd unigol, yn ogystal â bod yn rhan o'r Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol.

**50.** Soniodd cyfranogwyr eraill am yr her i'r Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol gael ei hunaniaeth glir a chyson ei hun, fel bod pobl yn deall beth mae'r oriel celf gyfoes genedlaethol yn ei olygu.

**51.** Soniodd rhai cyfranogwyr am yr her o wneud yr oriel celf gyfoes genedlaethol yn berthnasol i bobl yn eu cymunedau lleol.

**52.** Awgrymodd y cyfranogwyr y bydd yn heriol sicrhau bod y prosiect yn cael ei ystyried yn ei gyfanrwydd ac ni ddylid ystyried lleoliadau fel 'llinynnau' ar wahân.

**53.** Siaradodd llawer o gyfranogwyr am yr angen am ddull cyfannol gyda phrotocolau a rennir ar gyfer yr holl leoliadau dan sylw, hy y naw oriel rhwydwaith, y tair canolfan bosibl a'r safle angor.

**54.** Soniodd y cyfranogwyr am yr her o weithio ar y cyd, gan sicrhau bod pob partner yn cael ey trin yn deg, yn gyfartal ac yn teimlo’u bod wedi'u cynnwys yn y prosiect.

**55.** Yn yr un modd, siaradodd rhai cyfranogwyr am eu profiad o'r broses hyd yma ac roeddent yn teimlo ei bod yn fwy brig i’r bon na'r hyn yr oeddent wedi'i obeithio.

**56.** Siaradodd rhai cyfranogwyr am y datgysylltiad rhwng y canolfannau a'r naw oriel rwydwaith.

**57.** Ar ôl bod mewn sesiynau rhannu gwybodaeth gyda Llywodraeth Cymru, roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo mai ychydig iawn o wahaniaeth oedd rhwng prosesau presennol a'r model newydd sy'n cael ei gynnig, er enghraifft, wrth wneud cais am fenthyciad o'r casgliad cenedlaethol.

**58.** Fel artistiaid, siaradodd llawer o'r cyfranogwyr am yr her o groesawu pob math o gelf gyfoes yn yr oriel genedlaethol.

> *"Mae'n rhaid gwneud iddo weithio fel bod pawb yn cydweithio a does dim cystadleuaeth rhwng safleoedd."*
>
> *Dim ond y cydweithio rhwng y safle angor a’r safleoedd presennol fydd yn ei chadw’n gryf."*
>
> *"Mae'n ymwneud â pherthnasedd … mewn gwirionedd mae ei wneud yn berthnasol i'm hamgylchedd a bod o ddiddordeb go iawn i'r bobl o'm cwmpas yn bwysig iawn, iawn."*

> *"Nid yw cydnabod yr arbenigedd, safbwynt curadurol pob un o'r [orielau rhwydwaith] a bod ganddyn nhw eu cyd-destun a'u hardal eu hunain… yn gymaint o ran o'r sgwrs ag y dylai fod ar hyn o bryd."*
>
> *"Y canolfannau cenedlaethol……. ydyn nhw'n arwain neu i ba raddau mae'n fodel sydd mewn gwirionedd yn gwrando, yn deall, yn dysgu o arbenigedd yr orielau lleoliad ac yn eu parchu?"*
>
> *"Mae'n ymwneud â meddylfryd, mae'n rhaid i Gaerdydd wrthsefyll y syniad bod yr amgueddfa yn gwneud ffafr â ni."*
>
> *"Bydd mor wasgaredig fel nad oes ganddo hunaniaeth ganolog. Dyna fyddai fy mhryder i."*
>
> *"Mae angen iddo fod o'r bôn i'r brig, os yw'n dechrau teimlo o'r brig i'r bôn, bydd yn teimlo fel ei fod yn cael ei orfodi ar bobl a bydd yn dod yn nawddoglyd."*

**Safle angor**

**59.** Soniodd llawer o gyfranogwyr am yr angen am eglurder ynghylch y safle angor a mynegwyd pryderon am y datblygiad diweddar a diffyg gwybodaeth am y 'llinyn' hwn.

**60.** Roedd rhai cyfranogwyr yn cwestiynu'r angen am safle angor gan awgrymu y byddai'n fwy buddiol gwneud mwy o ddefnydd o orielau presennol.

**61.** Awgrymodd cyfranogwyr eraill mai'r safle angor ddylai fod yn fan cychwyn, yna gallu cyfeirio at yr orielau rhwydwaith ymhellach ledled Cymru.

**62.** Ychydig o'r cyfranogwyd drafododd y syniad o gael 'teulu o orielau' ar dri safle, tebyg i Tate, sy'n deulu o bedwar safle, gan gynnwys St Ives, Cernyw. Gallai'r rhain gael eu lleoli yng ngogledd, canolbarth a de Cymru.

**63.** Ychydig o gyfranogwyr oedd o blaid cael un adeilad ffisegol ar gyfer yr Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol.

> *"Byddai'n well gen i weld buddsoddiad i ddatblygu'r hyn sy'n gelfyddydau gweledol eithaf ansicr ar hyn o bryd… yn hytrach na dargyfeirio arian i adeilad mawr, sgleiniog newydd sydd efallai heb resymeg glir."*

> *"Byddai'n hyfryd cael oriel wych, pwynt canolog. Ond mae'n rhaid i chi fod yn ymarferol. Rydyn ni'n byw mewn amseroedd enbyd ar hyn o bryd."*
>
> *"Yn bersonol, mae'n teimlo fel ychydig o esgus i fod yn onest... mae gwir angen oriel celf gyfoes arnom mewn un adeilad, ac mae angen i Lywodraeth Cymru wneud hynny!"*

### Sector preifat

**64.** Ychydig iawn o gyfranogwyr a soniodd am sut y gallai'r sector preifat a'r sector cyhoeddus weithio ar y cyd i ddatblygu a chynnal yr Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol.

> *"Mae 'na dybiaeth drwy'r amser yn y sector cyhoeddus, bod yn rhaid ariannu'r pethau hyn gan y llywodraeth unwaith y byddwch chi'n eu sefydlu... ond nid oes rhaid iddo fod felly. Mae gwir angen [i Lywodraeth Cymru] gael cefnogaeth y sector preifat........ Mae hon yn oriel a all ddod yn hunangynhaliol."*

### Hyrwyddo

**65.** Teimlai'r cyfranogwyr y byddai hyrwyddo effeithiol yn allweddol i lwyddiant y model gwasgaredig; soniodd llawer am heriau hyrwyddo o'r fath.

**66.** Siaradodd llawer o'r cyfranogwyr am yr angen am gaffis, siopau ac ati i annog pobl i ymweld â'r orielau yn ogystal â gweithgareddau teuluol i ganiatáu i'r gymuned leol gymryd perchnogaeth o'r Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol.

### Trafnidiaeth a chynaliadwyedd

**67.** Awgrymodd rhai cyfranogwyr y byddai'n heriol sicrhau cysylltiadau trafnidiaeth da neu hyd yn oed digonol rhwng y gwahanol orielau, ledled Cymru.

**68.** Soniodd llawer o'r cyfranogwyr am faterion cludo'r casgliad cenedlaethol i leoliadau ledled Cymru a chodi pryderon am ôl troed carbon.

### Yr economi

**69.** Yng ngoleuni'r hinsawdd economaidd bresennol, soniodd rhai cyfranogwyr am eu pryder am ymateb y cyhoedd i'r gwariant ynghylch yr oriel celf gyfoes genedlaethol.

**70.** Cododd rhai cyfranogwyr bryderon am gyllido parhaus yr oriel celf gyfoes genedlaethol, yn enwedig o ran staffio'r lleoliadau ledled Cymru.

**71.** Awgrymodd y cyfranogwyr botensial nawdd ar gyfer yr Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol.

### Mynediad digidol at gelf gyfoes

### Manteision

**72.** Cytunodd yr holl gyfranogwyr fod mynediad digidol at gelf gyfoes yn 'llinyn' annatod o gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol.

**73.** Cytunodd y cyfranogwyr fod gan wefan newydd yr Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol, Celf ar y Cyd a gafodd ei lansio ym mis Mehefin 2023, botensial enfawr i gydnabod celf gyfoes yng Nghymru ar lefel ryngwladol.

**74.** Roedd llawer o gyfranogwyr yn canmol ansawdd y digideiddio ar wefan Celf ar y Cyd.

**75.** Fel darlithwyr, athrawon a thiwtoriaid, siaradodd llawer o gyfranogwyr am sut y byddai'r wefan yn cyfoethogi ac yn gwella sawl agwedd ar y sector addysg.

**76.** Soniodd rhai cyfranogwyr am gynhwysedd mynediad digidol, yn enwedig ar gyfer pobl nad ydynt yn gallu ymweld ag orielau yn gorfforol.

**77.** Nododd un cyfranogwr na ddylai mynediad digidol fod yn ddewis amgen i ymweld ag orielau, ond yn hytrach yn opsiwn arall, yn enwedig i bobl nad ydynt o fewn cyrraedd i orielau.

**78.** Awgrymodd llawer o gyfranogwyr mai mynediad digidol fyddai'r sbardun sydd ei angen i annog pobl i ymweld ag orielau.

**79.** Siaradodd y cyfranogwyr am sut y byddai gwefan Celf ar y Cyd, yn codi ymwybyddiaeth ac yn cyflwyno'r Gymraeg i gynulleidfa newydd.

> *"Mae'n ffordd ddemocrataidd o rannu'r gwaith a byddai'n cynyddu ei weledd."*
>
> *"... does dim ots lle yn y byd wyt ti, ti'n gallu gweld celf o Gymru. Yn hynny o beth, rwyt ti'n cystadlu â'r holl orielau mawr eraill, oherwydd rwyt ti'n troi i mewn i'r endid arall hwnnw. "*
>
> *"Mae mynediad digidol yn bwysig iawn o safbwynt addysgu ac ymchwil, mae cael un gronfa ddata ganolog, safonol gyda delweddau a gwybodaeth gatalogio yn werthfawr iawn. Ond ni all fod yn wefan yn unig, mae angen iddi fod yn rhan o raglen ehangach yr oriel."*
>
> *"Mae ochr ryngweithiol a throchi mynediad digidol at gelf gyfoes yn gyffrous iawn."*
>
> *"Mae'r oriel ddigidol yn hollol wych. Mae'n syniad gwych."*
>
> *"Gallai'r gwaith celf digidol gael ei ddefnyddio fel ffordd gadarn o gyflwyno'r iaith i bobl nad ydynt yn gwybod amdani......mae'n rhoi gwedd arall iddi."*

**Anfanteision**

**80.** Siaradodd y cyfranogwyr am heriau tlodi digidol, sy'n cyfyngu ar y gallu i gael mynediad at gelf gyfoes.

**81.** Rhannodd llawer o gyfranogwyr eu pryderon am fynediad digidol yn rhwystro pobl rhag ymweld ag orielau yn bersonol.

**82.** Awgrymodd yr holl gyfranogwyr fod y profiad o gael mynediad corfforol at gelf yn wahanol iawn i gael mynediad at gelf yn ddigidol. Siaradodd yr holl gyfranogwyr am yr angen i fod yn yr un ystafell â'r gwaith celf yn gorfforol er mwyn gwerthfawrogi'r gwaith yn llawn.

**83.** Siaradodd llawer o'r cyfranogwyr am yr agwedd gymdeithasol o ymweld ag oriel, a gaiff ei cholli wrth gael mynediad digidol at gelf.

**84.** Siaradodd y cyfranogwyr am yr angen i gynnwys yr artistiaid eu hunain yn y broses o ddigideiddio celf gyfoes.

**85.** Soniodd y cyfranogwyr am yr her o ddiweddaru gwaith digideiddio celf gyfoes.

**86.** Soniodd un cyfranogwr fod angen rhywbeth llai curadedig ar ymchwilwyr nag adnodd digidol sy'n wynebu'r cyhoedd a bod angen cydbwysedd da.

**87.** Fel artistiaid, siaradodd rhai cyfranogwyr am eu pryder bod pobl yn cymryd syniadau o'u gwaith celf.

**88.** Soniodd un cyfranogwr am broblem bosibl gor-ddigideiddio.

> *"Rydyn ni i gyd mor gyfarwydd ag eistedd o flaen sgrin a chael gafael ar unrhyw beth yn y byd, ond mae mynd i mewn i ofod corfforol a'r gwaith o flaen ein llygaid yn brofiad hollol wahanol."*
>
> *"Fel artist, mae'r wyneb paentiedig yn bwysig iawn i mi yn fy ngwaith ac mae'n ddimensiwn arall i fy ngwaith celf."*

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 10.2

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon